# Y Bont

Rhifyn 77
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Gwanwyn 2021

***Newyddion yn Torri***

## Hyfforddiant DI-DÂL mewn Gwaith Chwarae

**Mae'r aros drosodd, mae'n bryd i gyffroi!**

www.clybiauplantycmru.org

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

Rhifyn 77 Gwanwyn 2021

## Yn y rhifyn hwn...


Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol..............2

Hyfforddiant Rhad ac am Ddim......3

Ffocws ar Orllewin Cymru..............4

Aelodaeth..................................5

Ffocws ar Ogledd Cymru..........6 & 7

Ffocws ar Dde Ddwyrain Cymru..8 & 9

Hyfforddiant................................10

Cwrdd â'r Clybiau!........................11

Tyfu'ch Gwledd eich hun........12-13

Cymraeg......................................14

Llamu mlaen yn 2021..................14

Syniadau Codi Arian....................15

Prosiectau...................................16

Diweddariadau Adnoddau Dynol..17

Llamu mlaen yn 2021............20-21

Systemau Ariannol.......................22

Rhannau Rhydd...........................24

Risg mewn Chwarae....................25

Gweithgareddau...........................26



Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.



Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol



Dymadechrau'r cyflwyniad hwn i'r newyddlen a ninnau yn dal o dan glo, ond gyda newyddion o lefelau is o haint a marwolaethau, sydd i'w groesawu'n fawr. O'm cwmpas dros yr ychydig fisoedd diwethaf o'r cyfnod clo, rwyf wedi gweld yr arwyddion o ffrindiau, teulu a chydweithwyr yn ei chael hi'n anodd yn y cyfnod clo ym misoedd oer y gaeaf. Mae'n ymddangos yn llawer mwy anodd y tro hwn. Wedi dweud hynny gallaf weld arwyddion y gwanwyn wrth fynd am dro bron yn ddyddiol, ynghyd â thyfiant newydd a golau ym mhen draw'r twnnel yma sy'n ymddangos yn ddi-ben-draw.

Ein ffocws yn y newyddlen chwarterol hon fydd ar y blagur a'r arwyddion newydd hynny o dyfiant. Fel cyfundrefn mae gennym raglen fywiog o ddigwyddiadau a phrosiectau sydd wedi eu cynllunio a nifer o bethau i gefnogi adfywiad parhaus y sector Gofal Plant Allysgol. Rydym yma i gefnogi'r blagur newydd sy'n dechrau ymddangos o'r "ddaear", y sector yn adfywio, a thrwy ymgysylltu â'n gweithgareddau gwanwynol a chamu i'r awyr agored, byddant yn cefnogi llesiant y plant y maent yn gofalu amdanynt.

Rydym ni'n dechrau'r gwanwyn gyda'n cynnig cyffrous o aelodaeth am ddim; gobeithio y bydd hwn yn gymorth i ysgogi'r tyfiant yn y sector, drwy sicrhau eich bod yn gallu cyrchu'r holl adnoddau, hyfforddiant a phrosiect, a'r syniadau sydd gennym am weithgareddau. Ar y pwnc o dyfiant, rwy'n gobeithio y byddwch yn ymgysylltu â'n prosiect Tyfwch eich Gwledd eich Hun, sydd wedi ei ariannu gan Ganmlwyddiant Tesco, lle byddwn yn datblygu gweithgareddau er mwyn i chi gyflwyno man tyfu yn eich clwb ac yn dechrau tyfu'ch cynnyrch eich hun gyda'ch Plant, a, gobeithio, yn gadael iddynt goginio dathliad mawr gyda'u teuluoedd yn yr haf.

Bydd ein prosiect sydd wedi ei ariannu gan y Lotri Genedlaethol - Cysylltu a Chefnogi ein Clybiau Gofal Plant Allysgol a Chymunedau, yn dal i gynorthwyo clybiau i dyfu drwy wella eu llywodraethiad a'u cofrestriad, ac yn datblygu eu cysylltiadau â'u cyd-glybiau drwy gyflwyno digwyddiadau rhwydwaith ar-lein lle byddwn yn hwyluso sgyrsiau o gwmpas y gefnogaeth yr ydych wedi ein hysbysu bod arnoch eu hangen.

Ein tyfiant newydd, mwyaf cyffrous, yw y bydd modd i ni gynnig, drwy ariannu Cynnydd ar gyfer Llwyddiant Llywodraeth Cymru , y cymhwyster, Dyfarniad mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Gwyliwch am yr hysbyseb yn nes ymlaen yn y newyddlen, cyflwynwch eich mynegiant o ddiddordeb ac ymunwch â'r 97.3% o'n gweithwyr presennol sy'n prisio Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gyfundrefn y byddent yn ei argymell ar gyfer dysgu.

Drwy'r rhifyn hwn drwyddo draw byddwch yn gweld adlewyrchiadau aelodau o'r staff ar y flwyddyn ddiwethaf a'r pethau y byddant yn gobeithio llamu i mewn iddynt yn 2021. Wedi arwain y gyfundrefn drwy'r flwyddyn olaf hon, mae'n ddiddorol i mi ddeall mewn gwirionedd sut mae unigolion wedi brwydro, goroesi ac edrych tua'r dyfodol â gobaith cadarn. Wedi cydweithio'n agos â'm holl dîm, a cheisio gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cefnogi, gyda'u llesiant a'u llwythi gwaith, caf fy hun yn adlewyrchu ar rai o'r cwestiynau y maent wedi eu hateb:

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Yr oedd i mi, fel ag i eraill, gymaint o heriau, mae'n anodd dewis dim ond un. Ar ddechrau'r clo mawr symudais i Aberhonddu i gefnogi fy mhartner sy'n ddall a'm tad, 83 blwydd oed, a oedd yn cysgodi, i wneud yn siŵr fod ganddynt beth roedd arnynt eu hangen, a'm bod i'n agos. Yr oedd fy frwydr methu â gweld fy mhlant, a oedd ill dau yn Weithwyr Allweddol, un yn Llundain ac un yng Nghaerdydd, ond mae'n siŵr mai fy her fwyaf oedd sut y gallwn, o'm hystafell wely sbâr, geisio cadw blaenoriaethau'r gyfundrefn o ran y sector, wrth sicrhau llesiant fy staff. Yr un her uwchlaw'r cyfan oedd cadw pawb yn ddiogel, yn iach ac yn cefnogi eu hunain i barhau felly. Heb fy staff yn gofalu'n gynhenid drostynt eu hunain, sut fydden nhw'n gallu gwneud eu gorau dros y sector yr ydym oll mor frwdfrydig drosto.

Gallwn weld rhai aelodau o'r staff yn ei chael hi'n anodd gyda'u brwydrau personol eu hunain, yr un brwydrau yr oedd nifer ohonom yn eu hymladd: unigrwydd, ynysed, pethau'n llethu, y swm o waith (y dasg mewn llaw) a sefyllfaoedd a blaenoriaethau newidiol bron bob dydd. Gallwn eu gweld yn ceisio cefnogi'r staff o'r sector, a oedd hefyd yn profi'r un teimladau; roeddent yn ceisio cefnogi'r staff o'r sector, a oedd hefyd â'u brwydrau personol eu hunain, yr un brwydrau y gwnaeth llawer ohonom eu hymladd: unigrwydd, ynysedd, pethau'n llethu, swm y gwaith (y dasg mewn llaw) a sefyllfaoedd a blaenoriaethau'n newid bron yn ddyddiol. Gallwn eu gweld yn ceisio cefnogi'r staff o'r sector, a oedd hefyd yn profi'r un teimladau; roeddent yn chwarae rôl y cysurwr.

I oresgyn yr her hon, gwrandewais, dysgais a chefnogais staff mewn ffordd, ac i raddau nad oeddwn wedi ei wneud ynghynt. Anogais nhw i gymryd amser ar gyfer nhw eu hunain, diffodd y swîts, ymwneud â gweithgareddau newydd fel y gwnes fy hun; gwerthfawrogi fy ymarfer corff dyddiol, defnyddio'r amser i fwynhau mynd am dro yn y wlad gan wrando ar bodlediadau er mwyn dysgu rhywbeth newydd yn ddyddiol, rhywbeth nad oeddwn wedi ei wneud o'r blaen. Drwy'r podlediadau hyn dysgais strategaethau newydd er mwyn gallu cefnogi fy hun a'm tîm, i'w hannog i gefnogi ei gilydd.

Dwi'n meddwl mai'r ffordd fwyaf effeithiol o oresgyn y sialens hon oedd gwneud yn siŵr fod y gyfundrefn mor hyblyg ag y gallai fod. Deall bod angen i unigolion, er mwyn addasu ac ymdopi â'r norm newydd, wneud hynny yn yr amser a oedd yn iawn iddyn nhw, gan ystyried eu hamgylchiadau unigol amrywiol, o blant ifanc â chyfrifoldebau teuluol i gymryd amser iddyn nhw eu hunain. Rhoi'r caniatâd iddyn nhw gymryd amser i ffwrdd pan oedd hynny'n iawn iddyn nhw, gweithio oriau annodweddiadol i fodloni eu hanghenion eu hunain. Rwy'n teimlo inni fod ar ein hennill o roi'r hyblygrwydd hwn, a'r staff yn gwneud y cyfan a allant i gyrraedd eu hamcanion, yn bersonol ac yn broffesiynol.

**Pe gallech fod wedi newid unrhyw beth, beth fyddai a pham?** Rwy'n credu mai'r ateb amlwg yma yw'r pandemig: ei newid fel na fyddai wedi bod mor ddrwg, neu heb ddod o gwbl. Beth a allwn fod wedi ei wneud yn wahanol? Rwy'n credu, fel unigolyn ac fel cyfundrefn, ein bod wedi tyfu o'n profiadau o'r llynedd ac wedi gweld y gallwn gyflawni hyd yn oed mewn amgylchiadau anodd.

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Yn bersonol, bod yn rhan o raglen Pilotlight a chael y cyfle i ddatblygu fy sgiliau fel arweinydd, nid yn unig er fy lles fy hun, ond er lles y gyfundrefn a'r sector yn ogystal. Hefyd, i ddysgu mwy o'r podlediadau niferus ac amrywiol yr wyf wedi cael hyd iddynt, gan ddal i daro'n ddyddiol ein targedau am weithgaredd.

Fel cyfundrefn, edrych ymlaen at helpu'r Sector Gofal Plant Allysgol i adfywio a thyfu egin newydd, cefnogi cyfleoedd chwarae o ansawdd i blant Cymru a'u helpu i adfer wedi'r flwyddyn erchyll hon.

Yn edrych ymlaen at roi'r cwtsh mwyaf erioed i'm mab a'm merch, a gobeithio gallu treulio llawer mwy o amser gyda nhw eleni.

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** Heblaw'r rhagolygon sy'n fy nghyffroi, a chyflawni'r rhai hynny, fy nghynlluniau yw cadw'n ffit ac yn iach, dal i ddysgu ond gwneud yn sicr fy mod yn gwneud mwy o'r hyn yr wyf i'n ei ddweud wrth eraill, a gwrando arna i fy hun pan dwi'n dweud wrth fy staff i wneud yn siŵr eu bod yn cymryd amser iddyn nhw eu hunain?!?!? Sut wna i hynny, pwy ŵyr. :)

**Beth hoffech chi ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol (h.y. mewn 12 mis)?** Peidiwch â bod mor galed arnat ti dy hun, rwyt ti bob tro'n ceisio gwneud dy orau, weithiau mae'n rhaid i hynny fod yn ddigon. Rho dy hun yn gyntaf, neu o leiaf ychydig ffordd i fyny'r rhestr o bethau i'w gwneud, ac yn amlach!

Gan ddymuno gwanwyn hapus ac iach ichi,

Jane O'Toole,
Prif Swyddog Gweithredol

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

## ***Newyddion yn Torri***

# Hyfforddiant DI-DÂL mewn Gwaith Chwarae

**Mae'r aros drosodd, mae'n bryd i gyffroi!**

Lleoedd wedi'u hariannu'n llawn ar Ddyfarniad Lefel 3 Cache mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) – Ar Gael Yn Awr!

Os ydych angen Cymhwyster mewn Gwaith Chwarae, yn gweithio yn y sector Gofal Plant ac eisoes â Chymhwyster Lefel 3 mewn Gofal Plant, mae gennym y cwrs i chi.

Gall cymhwyster mewn Gwaith Chwarae eich helpu i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol sy'n mynnu bod gweithwyr mewn Lleoliadau Gofal Plant a reoleiddir â chymhwyster perthnasol erbyn Medi 2022. https://www.clybiauplantcymru.org/news-more.asp?nid=598

Mae 97.3% o'n Dysgwyr yn graddio ein hyfforddiant yn "dda" neu'n "rhagorol".

Dywed y Dysgwyr wrthym: *"Rwyf wedi ennill gwybodaeth ehangach o Waith Chwarae ac wedi cael y sesiynau'n llawn gwybodaeth; dwi wedi mwynhau cyfarfod â phobl newydd a chymdeithasu wrth wneud gwaith grŵp. Diolch."*

Gallech ennill y cymhwyster y bydd ei angen arnoch mewn cyn lleied â 12 wythnos, heb gyfyngu ar brofiadau dysgu o ansawdd.

Cofrestrwch eich diddordeb yn awr: Mynegiant o Ddiddordeb

Cynnydd ar gyfer Llwyddiant
Progress for Success

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Gorllewin Cymru



## Clybiau yng Ngorllewin Cymru'n newid i ddod yn Sefydliadau Corfforedig Elusennol

Rydym yn awr wedi dod i ddiwedd ein gweminarau 'Dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol', a gyflenwyd i Leoliadau ledled Cymru.

Roedd y pynciau'n cwmpasu: beth a oedd angen ei wneud i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE), y manteision ac arweiniad cam-wrth-gam i bob un o gamau'r broses gofrestru. Roedd adborth o'r Lleoliadau'n hynod gadarnhaol, ac yn ôl ein haddewid rydym wedi parhau i roi cefnogaeth i'r bobl hynny a oedd ei hangen drwy eu proses gofrestru eu hunain.

Rydym wedi cyfarfod ag Ysgolion, Clybiau, Gweithwyr Chwarae, Ymddiriedolwyr, Athrawon a Llywodraethwyr i drafod eu hopsiynau llywodraethu a'r hyn y byddent yn ei olygu. Rydym hefyd wedi cefnogi Clybiau gyda'u dogfennau llywodraethu (cyfansoddiadau) ac wedi sicrhau ein bod ar gael drwy Teams, ebost a'r ffôn i gynnig arweiniad yn ôl y galw. Mae'r adborth ar hyd a lled Gorllewin Cymru gan Leoliadau sydd wedi derbyn y gefnogaeth hon yn cynnwys:

*'Diolch gymaint am eich holl gefnogaeth!'* – (Clwb yn Sir Gaerfyrddin)

*'Dim ond am ddweud 'diolch' i chi am ddeialu i mewn heno. Ry'n ni'n gwerthfawrogi'n fawr. Roedd cael person proffesiynol yno a oedd yn gallu ateb yr holl gwestiynau ac ymholiadau yn wych'* - (Clwb yn Sir Benfro)

*Help gwych, diolch gymaint am eich holl gefnogaeth'* (Clwb yn Sir Benfro)

Peidiwch ag anghofio bod ein gweminarau 'Dod yn Sefydliad Elusennol' yn awr ar gael wedi eu recordio ymlaen llaw, ac yn gwbl ddwyieithog, i'r sawl yn eich mysg nad oedd modd i chi ymuno â ni am y gweminarau byw. Gellir cyrchu'r rhain ar gais o: webinar@clybiauplantcymru.org

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru
drwy ffonio: 01269 831010,
drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX

## Clybiau Abertawe'n Cefnogi Teuluoedd sy'n Gweithio

I lawer o Glybiau ar draws Cymru, roedd mis Ionawr yn ymddangos fel cyfle am ddechrau newydd wedi blwyddyn anodd, ond yn dilyn y cyhoeddiad y byddai Ysgolion yn symud i ddysgu hirbell, roedd darparwyr Gofal Plant a Chwarae yn ôl i feddwl am sut i wneud i bethau weithio a chadw eu darpariaeth ar agor.

Roedd nifer o Leoliadau mewn Ysgolion yn Abertawe yn meddwl, yn wyneb darpariaethau Gofal Plant Brys a oedd yn cael ei gynnig yn eu hysgol i blant gweithwyr allweddol, na fyddai angen iddynt agor, ac y byddai'n rhaid iddynt gau. Wedi ystyried yn ofalus, gwelodd Lleoliadau bod Ysgolion, er yn cynnig Gofal Plant Brys yn eu Hysgol i blant gweithwyr allweddol, dim ond hyd 3yp y byddai hyn, ac na fyddai efallai'n ddigon i gefnogi rhieni sy'n gweithio. A hyn mewn golwg, aeth Lleoliadau ati i drafod gyda Phenaethiaid eu Hysgolion sut orau i gefnogi rhieni sy'n gweithio yn ystod y cyfnod hwn, gan awgrymu y gallent gynnig eu sesiwn Clwb Ôl-ysgol arferol fel estyniad i'r Gofal Plant am ddim a oedd yn cael ei ddarparu gan yr Ysgol.

Er y disgwyliwyd i'r niferoedd fod yn is nag arfer, gyda pheth cymorth ariannol o gronfa Plant a Phobl Ifanc Cyngor Abertawe, roedd modd iddynt ailagor wedi toriad y Nadolig a rhoi i staff eu darpariaeth ôl-ysgol arferol. Roedd modd i leoliadau a oedd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), ac a oedd wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, wahodd teuluoedd cymwys i ddefnyddio eu horiau adeg-tymor a oedd wedi eu hariannu ar gyfer y Clwb Ôl-ysgol.

Yn yr un modd, cafodd darparwyr gofal diwrnod llawn a oedd wedi eu lleoli mewn Ysgolion hefyd eu hunain yn y sefyllfa o fod yn feddwl a oedd aros ar agor yn bosibilrwydd, ond gydag arweiniad Llywodraeth Cymru fod gofal plant i aros ar agor, roeddent yn awyddus i gefnogi'r teuluoedd hynny nad oeddent yn gallu cyrchu Gofal Plant Brys eu Hysgol. Unwaith yn rhagor, yn dilyn trafodaethau gyda Phenaethiaid eu Hysgolion roedd modd iddynt aros ar agor a chynnig gwasanaeth i'r holl deuluoedd yr oedd arnynt angen cefnogaeth, nid teuluoedd gweithwyr allweddol yn unig. Roedd yn rhaid i leoliadau ystyried yn ofalus y cyfyngiadau ariannol y byddent oddi tanynt - llai o blant o bosibl, talu costau llawn staff, defnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi a chostau'r adeilad, felly roedd cynllunio gofalu a monitro eu hincwm a'u gwariant yn rheolaidd yn hollbwysig i sicrhau nad oeddent yn cael eu hunain mewn anhawster ar unrhyw adeg. Roedd hefyd modd i Leoliadau a oedd wedi cofrestru wneud cais am ariannu drwy Gyngor Abertawe i'w cefnogi gyda chynaliadwyedd, ac unrhyw golli incwm yn sgil gorfod cau dros dro oherwydd achos o Covid a gadarnhawyd, ac mae hyn wedi bod yn gefnogaeth fawr i Glybiau.

## Cymorth Ariannol i Glybiau Abertawe

Mae Lleoliadau sydd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn Abertawe wedi profi llwyddiant yn eu ceisiadau am ariannu dros yr ychydig fisoedd diwethaf drwy Gronfa Plant a Phobl Ifanc Abertawe. Ers nifer o flynyddoedd mae Lleoliadau sydd wedi cofrestru ag AGC wedi gallu gwneud cais i'r pot blynyddol hwn o arian i'w cynorthwyo o ran cynaliadwyedd, ond mae'r flwyddyn ddiwethaf yma wedi dod ag anghenion a heriau lu i Leoliadau ac ni fu erioed ei angen fwy.

Nid yw'r angen am gefnogaeth ariannol wedi newid; roedd ansefydlogrwydd y 12 mis diwethaf yn golygu'n aml fod Lleoliadau'n ei chael yn hynod anodd i gynllunio ymlaen llaw gyda chyfnodau clo ar ddyfod, caeadau dros dro, llai o deuluoedd ag angen gofal plant gan i weithio o gartref ddod y norm, a hefyd, yn anochel, yr angen am gau o ganlyniad i achos cadarnhaol o Covid. Roedd modd i'r Gronfa Plant a Phobl Ifanc gefnogi Lleoliadau drwy'r cyfnod hwn, yn y gobaith y byddent yn y pen draw, drwy barhau'n gynaliadwy drwy'n cyfnodau anodd, yn gallu aros yn gyson ac yn ddibynadwy ar gyfer y teuluoedd sy'n eu defnyddio a dal i fod ar gael pan fydd pethau o'r diwedd yn normal eto.

## Llunio Llain Lysiau yn Abertawe!

Mae Staff a phlant Clwb Gwyliau ac Amlapiol Hendrefoilan yn Abertawe bob tro'n edrych am ffyrdd o ddefnyddio a datblygu eu man y tu allan i'r adeilad a'i wneud yn lle cyffrous i blant fod ynddo ym mhob tywydd.

Wedi darllen am gystadleuaeth 'Tyfwch eich Gwledd eich Hun' aethant ati i feddwl sut y gallent dyfu'u llysiau eu hunan yn eu llain eu hunain. Er mwyn bod yn rhan o'r gystadleuaeth roedd angen i'r Clwb sôn wrthym am y lle a oedd ganddynt i wneud hyn a'r pethau yr hoffent eu tyfu. Roedd y staff yn gwybod mai'r math gorau o lain lysiau fyddai un wedi ei ddylunio gan y plant, ac felly gwnaethant ofyn iddynt beth hoffent eu tyfu a pham. Gan ddefnyddio diagram corryn, dyma'r plant yn ymgasglu ac yn cynnig eu holl awgrymiadau o 'Bydden ni'n hoffi eu bwyta nhw', ''Gallwn ni gasglu ein bwyd ein hunain' a 'I drio a blasu mwy o lysiau!'. Roedd y staff yn synnu at gymaint yr oedd y plant yn mwynhau trafod hyn, ond yn gwybod, pe baent yn ennill, y byddai'r plant wrth eu boddau'n bod yn rhan o ddatblygu eu man allanol eu hunain.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi i'r Lleoliad fod yn un o'n henillwyr lwcus, yng nghystadleuaeth Tyfwch eich Gwledd eich Hun, Tesco, a disgwyliwn yn eiddgar i weld canlyniad terfynol eu gwaith caled!



# Aelodaeth

Erbyn hyn, dylech fod wedi derbyn e-bost i adnewyddu eich aelodaeth (neu ymuno).

Eleni mae ymaelodi â Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn **rhad ac am ddim i Glybiau Gofal Plant Allysgol**. Golyga hyn y gall Clybiau Gofal Plant Allysgol gael ein cefnogaeth, ein hadnoddau a'n hyfforddiant heb orfod pryderu am ffi aelodaeth.

**Os ydych yn Glwb Gofal Plant Allysgol, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw gwneud cais am eich aelodaeth ar-lein ar https://www.clybiauplantcymru.org/members.asp erbyn Mawrth 31ain 2021.** Os ydych eisoes yn aelod, mewngofnodwch, gwiriwch eich manylion ac ailymaelodwch.

Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'ch manylion mewngofnodi, mae ein Gweinyddydd cyfeillgar, Becci, ar gael ar 029 2074 1000 neu drwy anfon e-bost i membership@clybiauplantcymru.org. Os cewch broblem gyda'r ffurflen ar-lein, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, gall hi eich rhoi ar y llwybr cywir.

## Pam dod yn aelod?

**Bydd eich aelodaeth ddi-dâl hyd at 31.03.2022 yn arbed y canlyniol i chi:**

- **£20.00** am bob person unigol sy'n bwcio'u lle ar gwrs Hyfforddi (mae ffi o £20.00 y person yn achos rhai nad ydynt yn aelodau
- **£50.00** os ydych yn prynu gweithdy clwb
- **Gostyngiad o hyd at 5%** ar Wiriadau'r GDG (DBS) gydag uCheck
- **10% oddi ar deganau** a chyfarpar gan Stepping Stones
- **10% oddi ar deganau** a chyfarpar gan EYP Direct

## CEWCH hefyd fynediad at:

- Hysbysebu i'ch clwb yn ddi-dâl ar www.clybiauplantcymru.org – fel y gall rhieni/gofalwyr ddod o hyd i'ch lleoliad
- Hysbysebion recriwtio yn ddi-dâl ar www.clybiauplantcymru.org a'r cyfryngau cymdeithasol
- E-Newyddion Ariannu misol yn ddi-dâl
- Newyddlen chwarterol yn cynnwys syniadau ar weithgareddau a chodi arian, yn ddi-dâl
- Cyhoeddiadau yn ddi-dâl, yn cynnwys Camu Allan (sy'n llawn o bolisïau enghreifftiol a gweithdrefnau i'ch helpu i fodloni'r Safonau Cenedlaethol Sylfaenol) a ddiweddarwyd yn 2020 i gynnwys templedi a pholisïau penodol i Covid-19.
- Arweiniad arbenigol ar gynllunio busnes, ehangu, cofrestru, sicrwydd ansawdd a phob agwedd arall ar ddarpariaethau Clybiau Gofal Plant All-ysgol yn ddi-dâl gan dîm o Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant.
- Cymorth ac arweiniad ar faterion gofal plant a busnes gan eich swyddfa ranbarthol.
- Cyfle i fod yn rhan o'n Bwrdd Ymddiriedolwyr a llunio dyfodol Gofal Plant All-ysgol yng Nghymru



Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, ewch i'n tudalen Facebook www.facebook.com/clybiau, a gwasgwch y botwm i'n 'hoffi'; rydym yn rhannu gwybodaeth a diweddariadau defnyddiol yno hefyd!

Cofiwch ymuno/ailymuno ar-lein cyn Mawrth 31ain. Rydym am eich cefnogi, ond mae angen i chi ein cadw'n gyfamserol gyda'ch manylion cyswllt, a rhoi eich caniatâd i ni gysylltu â chi drwy ein cynnig aelodaeth. Os ydych eisoes yn aelod, mae angen i chi lofnodi i mewn i'r wefan cyn Mawrth 31ain.

www.clybiauplantcymru.org



# Gogledd Cymru

## Clwb Newydd yng Ngwynedd

Croeso cynnes i Gylch Meithrin Tywyn yn Nhywyn, Gwynedd. Maent ar hyn o bryd yn Gylch Meithrin sy'n awyddus i ymestyn eu darpariaeth i allu cynnig clwb brecwast, ôl-ysgol a gwyliau. Maent wedi, dod yn aelodau o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs er mwyn gallu defnyddio ein harbenigedd ac maent yn gweithio gyda'n Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yng Ngwynedd i ymestyn eu darpariaeth. Croeso i chi atom, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

....................................................

## Llwyddo i Gofrestru!

Llongyfarchiadau i Glwb y Berwyn, Y Bala, Gwynedd ar lwyddo i gwblhau eu cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Ers cofrestru maent wedi gallu cefnogi rhieni sy'n weithwyr allweddol drwy allu cynnig darpariaeth ofal diwrnod-llawn i'w plant. "Rydym wrth ein boddau â'r adborth gan rieni i'n safon ansawdd-uchel o wasanaeth. Edrychwn ymlaen at ddatblygu ein Clwb ymhellach yn 2021."

....................................................

## Clwb Newydd yn Sir Ddinbych

Hoffem groesawu Clwb Allysgol Little Lambs Emmanuel sydd wedi ei leoli yn Ysgol Emmanuel yn Y Rhyl. Mae Little Llambs yn gadwyn o Leoliadau Gofal Plant Allysgol sydd hefyd â Chlwb Hwyl yn Ysgol Faenol, Bodelwyddan, Sir Ddinbych a Meithrinfa Ddydd ym Mae Cinmel, Conwy. Rydym wedi'n cyffroi'n fawr i weld sut mae'r Clwb yn datblygu ac at weithio gyda chi yn y dyfodol!

....................................................

## Hyfforddiant mewn Gwaith Chwarae i Glybiau yng Nghonwy, Gwynedd ac Ynys Môn

Rydym wedi bod yn ddigon ffodus i allu darparu hyfforddiant mewn Gwaith Chwarae i'r sawl sy'n gweithio mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol yn siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Mae ein Dyfarniad Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth symud i'r terfyn amser cymhwyso, felly rydym yn falch iawn i fod yn gweithio ac yn hyfforddi dysgwyr, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill eu cymhwyster mewn Gwaith Chwarae.

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

## Meithrinfa Ddydd Tiny Tots a Chlwb Antur Big Ben yn croesawu ffrind newydd



Aelod diweddaraf Meithrinfa Ddydd Tiny Tots a Chlwb Antur Big Ben yw'r mochyn cwta hynod hyfryd a hoffus, 'Speedy'. Wedi clywed y stori drist gan un o'n rhieni am sut y cafodd Speedy ei adael ar ei ben ei hun wedi marwolaeth ei ffrind, roedd yn ymddangos yn gyfle perffaith i'n 'Squeak' bach ni gael ffrind yn gwmni iddi o'r diwedd, gan ei bod hithau hefyd wedi cael ei gadael ers 5 mis bellach ers inni golli ein hannwyl 'Bubble'.

Fe wnaethom ni benderfynu rhoi cyfnod treialu iddynt gyda'i gilydd, ac er boddhad mawr i ni fe ddaeth 'Speedy' a 'Squeak' yn ffrindiau'n syth ac maent eisoes yn ffrindiau gorau yn mwynhau cwmni ei gilydd. Hefyd fe wnaeth y plant syrthio mewn cariad â 'Speedy' hefyd, ac maent yn awyddus iawn i'w thrafod a gofalu am ei hanghenion dyddiol.

Mae 'Speedy' a 'Squeak' yn dod â buddiannau aruthrol i'n plant heb iddynt wybod. Hanes twymgalon arall am hapusrwydd a llwyddiant ym Meithrinfa Ddydd Tiny Tots, Prestatyn, Sir Ddinbych.

## Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae – Cynnydd ar gyfer Llwyddiant

Da iawn yn wir i Jessica Galvin am gwblhau ei Phrentisiaeth Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae. Bûm yn ddigon ffodus i gael ein hariannu gan Cynnydd ar gyfer Llwyddiant er mwyn gallu recriwtio prentisiaid sy'n gweitho llai na 16 awr. Rhoddodd yr ariannu gyfle i'r gweithwyr ennill cymhwyster a fyddai fel arall yn rhwystr iddynt gael mynediad iddo oherwydd oriau eu contract.

Cwblhaodd Jessica Galvi, o Glwb Enfys Conwy y cymhwyster hwn ar gyflymder nas gwliwyd o'r blaen, ymhell cyn ei diwrnod gorffen. Mae prentisiaethau wedi eu harwain gan y dysgwr, ac maent yn rhoi'r cyfle i ddysgwyr eu cwblhau ar gyflymder sy'n addas iddynt.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cwblhau cymhwyster mewn Gwaith Chwarae peidiwch â phetruso rhag cysylltu â ni; gallwn gael sgwrs ac ateb unrhyw gwestiynau gennych, neu gallwch gwblhau ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb: https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSf6kqVoRxc_svSEV3PGvF7eiDjfwsYegL-AEwz2guc7X0NWIg/viewfor.





# CEFNOGI EIN TEULUOEDD...............................

## Ffordd newydd o weithio gyda'n gilydd....

Darpariaeth gofal plant cofrestredig cyfrwng-Cymraeg ydym ni, Clwb Ffrindie Bach, yn cynnig gofal amlapiol ac Allysgol i 24 o blant sydd wedi eu lleoli yn Ysgol Pen Barras, Rhuthun, Sir Ddinbych. Yn dilyn sawl cyfarfod gyda'n Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yng Ngogledd Cymru (Sandra) penderfynodd ein Hymddiriedolwyr i wneud cais i'r Comisiwn Elusennau i ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Yn ystod y broses fe wnaeth pandemig Covid-19 oedi ein datblygiadau, daeth Medi 2020 yn fuan, a pharhaodd cyswllt â Sandra a chyfarfodydd drwy Teams. Gan ein bod wedi ein cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru am ofal dydd llawn, ond â 2 bwyllgor ar wahân, fe wnaethom benderfynu yn ogystal i uno ein gofal amlapiol a'n Clwb Gofal Plant Allysgol o dan un cyfansoddiad, Clwb Ffrindie Bach. Bydd hon yn ffordd newydd i ni weithio, ond bydd manteision ein dull ar-y-cyd yn golygu dwyn i fodolaeth wasanaeth gofal plant di-dor er budd ein teuluoedd, ein plant a'n staff. Mae ein cais am ddod yn SCE gyda'r Comisiwn Elusennol ar hyn o bryd; gobeithiwn y bydd yn llwyddiannus, a diolchwn i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs am eu cefnogaeth barhaus.

## Helpu ein teuluoedd

Mae helpu ein teuluoedd wedi bod yn rhywbeth y bûm erioed yn angerddol yn ei gylch, felly pan glywais — tra byddwn ni'n cyflenwi gofal plant o ansawdd uchel yn Ysgol Pen Barras, sydd wedi ei gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru — y gallai, ein teuluoedd elwa o Ofal Plant Di-dreth, gan olygu y byddai'r gofal plant yn fwy fforddiadwy, yna wrth gwrs yr oeddwn am eu helpu i gyrchu hyn. Ceisiais sawl gwaith i ddod i wybod am Ofal Plant Di-dreth, bu rhieni'n fy holi amdano, ysgrifennais sawl e-bost a chael llythyrau, ond heb lwyddiant.

Yn dilyn un o'm cyfarfodydd cyntaf â Sandra, ein Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gofynnais ynghylch cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth. Cyn gynted ag y gwnaeth Sandra ddychwelyd i'w swyddfa, derbyniais y ddolen gyswllt gywir i gofrestru gyda Gofal Plant di-dreth; roedd yn syml ac yn hawdd i'w wneud. Rydym yn awr wedi'n cofrestru ar gyfer Gofal Plant Di-dreth; gall ein rhieni yn awr wirio a ydyn nhw'n gymwys. Os ydynt, mae hyn yn eu cynorthwyo i dalu cost gofal plant.

Fy nghyngor i yw, os ydych yn ddarparydd gofal plant cofrestredig ewch i wefan y Llywodraeth i wybod mwy am Ofal Plant Di-dreth. www.gov.uk/guidance/sign-up-to-tax-free-childcare-if-youre-a-childcare-provider




## Cynlluniau Mawr i Feithrinfa Ddydd Little Lambs

Mae Meithrinfa Ddydd Little Lambs ym Mae Cinmel, Conwy, yn awr yn y broses o ymestyn yr ystafell i fyny'r grisiau i greu ystafell newydd sbon i'r Clwb Allysgol. Mae'r adeiladwyr wedi bod yno i gymryd ymaith y to presennol ac mae sgaffaldiau wedi eu codi fel y gellir dechrau ar y gwaith. Mae Sam Maitland-Price, y perchennog, a'r holl dîm, wedi'u cyffroi'n lân ynghylch y lle newydd. Rydym yn edrych ymlaen at ymweld yn fuan i weld pa le newydd, rhyfeddol sydd wedi'i greu gennych ar gyfer y Clwb Allysgol. Pob hwyl hogiau!

**Pob lwc ichi!**

# De Ddwyrain Cymru





## Oak Hill ASD yng Nghasnewydd
### yn dilyn o hanner tymor Hydref 2020 -
## Cynnal y peilot

Fe wnaethom eich diweddaru yn ein rhifyn blaenorol o'r Bont am y cynnydd a wnaeth gyda Chlwb Gwyliau Oak Hill ASD sydd wedi eu lleoli yng Nghasnewydd, a'u hanes hyd yma. Mae'r clwb a'i bwyllgor wedi bod drwy siwrnai anhygoel yn ystod y pandemig byd-eang, ac wedi llwyddo i sefydlu eu hunain fel Pwyllgor Elusen Gorfforedig, gan wneud cais am ariannu â grant, ac yna yn ystod hanner tymor Hydref 2020 roedd modd iddynt redeg am gyfnod peilot o 1 wythnos.

Cysylltodd Rheolwr y Clwb, Natalie â'r holl rieni cyn eu sesiwn er mwyn deall anghenion y plentyn, ac aeth yr holl staff ati'n llawn brwdfrydedd, gan weithio'n rhagorol gyda'r plant drwy'r wythnos gyfan. Roedd y sesiynau'n rhedeg o 8yb i 6yh a chafodd y plant lawer o hwyl yn ymwneud â'r profiadau a'r gweithgareddau amrywiol a oedd ar gael.

Gan gydnabod gwerth adolygu eu gwasanaeth yn barhaus i sicrhau ei fod yn ateb anghenion y gymuned leol, gofynnodd y pwyllgor i'r rhieni/gofalwyr am adborth yn dilyn yr wythnos beilot. Roedd y rhieni'n hynod fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd:

· Dywedodd 100% y byddent yn bwcio'u plant i mewn yno eto
· Dywedodd 100% eu bod yn teimlo bod eu plentyn yn ddiogel yn y Clwb
· Dywedodd 100% fod eu plentyn yn mwynhau eu hamser yn y Clwb (87% wedi ei fwynhau'n fawr, 13% wedi ei fwynhau i raddau)
· Dywedodd 100% fod eu plentyn wedi derbyn cefnogaeth ddigonol yn y Clwb.

Rhoddodd y rhieni/gofalwyr hefyd rywfaint o adborth ychwanegol, sy'n dangos yn glir yr effaith y mae datblygu'r ddarpariaeth hon wedi ei chael (ac a fydd yn parhau i'w chael, yn amodol ar barhad yn y cyfnod am ariannu) ar deuluoedd lleol:

"Staff gofalgar, anghredadwy, sylwgar, sy'n darparu amgylchedd sydd mor groesawgar, a chyda'u profiadau eu hunain o awtistiaeth, drwy amryfal ddulliau. Roedd fy mab yn hapus yn yr hanner tymor cyntaf mewn 5 mlynedd, ac yn edrych ymlaen at fynd ar y diwrnodau a oedd wedi eu cadw ar ein cyfer. Yn wir, yr unig adeg pan gafwyd dagrau oedd pan ddywedais wrtho na allai fynd ar y Dydd Gwener (doeddwn i ddim wedi bwcio). Byddwn i'n bwcio eto heb os nac oni bai. Mae'n rhyfeddol i weld rhywbeth fel hyn wedi ei sefydlu, yn enwedig yn ystod y pandemig. Diolch i chi bob un a phlis, plîs gadewch i mi wybod os yw'n llwyddiannus. Dwi wedi dweud yn barod ar y ffurflenni y byddwn yn bwcio eto ar gyfer hanner tymor, ond y byddwn yn bwcio dyddiadau ychwanegol yn sicr. Diolch Oak Hill, ry'ch chi oll yn gwbl ryfeddol."

"Cyfleuster gofal plant ardderchog i blant yng Nghasnewydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA). Roedd y staff wedi paratoi yn dda iawn, ac fe wnaethon nhw i'm mab deimlo bod croeso mawr iddo. Fe wnaethon nhw ymdrech wirioneddol i ddod i'w nabod ef a'i anghenion penodol ac unigol. Teimlais ei fod yn cael ei gefnogi'n dda a'i fod yn wir fwynhau mynd yno bob dydd. Mae amrywiaeth o wahanol blant yno felly cafodd wneud ffrindiau newydd a phrofi gwahanol bethau. Mae cyfleuster gofal plant fel hwn mor bwysig i'n mab ni, gan nad oes unrhyw beth tebyg iddo unrhyw le yng Nghasnewydd, ac mae angen i'n plant sydd ag ASA gael trefn arferol a strwythur drwy'r gwyliau."

"Roedd y gofal a dderbyniodd ein mab yn eithriadol. Roedd yn edrych ymlaen at fynychu Oak Hill bob dydd, a chymerodd Natalie ofal mawr yn deall anghenion ein mab. Edrychwn ymlaen at ein mab yn mynychu Oak Hill yn y dyfodol.".

Ers y peilot, mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur yn gweithio tuag at gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) er mwyn parhau i ddarparu'r gwasanaeth dros gyfnodau gwyliau o hyn ymlaen. Byddwn yn dal i'ch diweddaru wrth iddynt fynd yn eu blaenau. Os oes gennych ddiddordeb mewn cefnogi'r clwb hwn fel aelod o'r tîm o staff, neu'r pwyllgor, peidiwch â phetruso rhag cysylltu trwy e-bost: oakhillasdchildcare@gmail.com

## Clwb Ôl-ysgol SMASH yn Sir Fynwy yn llwyddo i gael ei ariannu

Llongyfarchiadau i Kim a'i thîm yn SMASH am sicrhau ariannu cynaliadwyedd o'r Awdurdod Addysg. Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol roedd angen i'r ysgol wneud rhywfaint o newidiadau y tu mewn i'r adeilad, a golygai hyn y bu'n rhaid i SMASH golli'r cyfan a oedd wedi ei storio ganddynt. Ac unman i storio'r holl gyfarpar, nid oedd gan y Clwb unrhyw opsiwn ond cadw popeth o dan gasebo. Roedd hyn yn bosibl yn y tywydd sych, ond byddai'n broblem pan fyddai'r tywydd yn newid. A'r Lleoliad wedi'i gau o ganlyniad i waharddiadau a dim incwm, roedd yn amhosibl prynu siec. Fe wnaeth Becky, y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, estyn allan i'r Awdurdod Lleol, a roddodd i Kim, yn garedig iawn, yr opsiwn o wneud cais am ariannu cynaliadwyedd yr oedd modd iddi ei ddefnyddio i brynu sied; yr oedd gweddill yr arian i fynd tuag at helpu i dalu'r costau parhaus pan oedd y Clwb ar gau. Gweithiodd Kim, Becky a'r Awdurdod Lleol gyda'i gilydd i gwblhau'r cais a'r holl waith angenrheidiol cysylltiedig, ac roedd mod di Kim brynu siec yn gyflym, gan arbed holl gyfarpar y Lleoliad.


**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru drwy ffonio: 029 2074 1000, drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW




## Clwb Gwyliau Heya Bina – Y Daith at Gofrestru

Mae Clwb Gwyliau Heya Bina yn Glwb Gwyliau cynhwysol sy'n ceisio darparu gofal plant ar gyfer teuluoedd ardal Cathays yng Nghaerdydd. Gweledigaeth Amy Clements yw'r Clwb Gwyliau; fe wnaeth Amy, wedi profi rhychwant eang o ddarpariaethau chwarae yn achos ei phlant ei hun, weld bwlch yn y farchnad am un â gweithgareddau chwarae a thema Islamaidd. Fe wnaeth sylwi bod cynlluniau chwarae â'r pwynt gwerthu unigryw hwn yn hynod boblogaidd, ond oherwydd yr angen am gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) dim ond am 1-2 awr y dydd yr oeddent ar agor, a doedd hyn ddim o gymorth i rieni a oedd yn gweithio neu'n astudio. Wedi cynnal ymchwil dwys i'r farchnad, sicrhawyd Amy fod angen yn wir am ddarpariaeth yn cynnig oriau hwy.

Bu Amy'n ceisio cael sefydlu'r ddarpariaeth am beth amser, ond roedd yn cael anhawster cael hyd i fan cyfarfod addas. Cyn cyfarfod â Becky, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, roedd Amy wedi dod o hyd i fan cyfarfod ac wedi bod drwy'r broses gofrestru gydag AGC, ond yn ystod archwilio'r adeilad gwelwyd bod angen gormod o waith i gael y lle cyfarfod i gydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC). Dechreuodd Amy a Becky weithio ar ddod o hyd i fan cyfarfod newydd, a gwnaed hyn yn fwy anodd â'r wlad dan glo. Wedi rhoi cynnig ar sawl man chwarae aeth Amy i siarad â'r Mosg lleol a chael eu bod nid yn unig yn gallu darparu lle cyfarfod, ond hefyd eu bod yn barod iawn i gefnogi Amy gyda'r fenter.

Y camau nesaf oedd paratoi'r polisïau a chwblhau'r cais i AGC. Gwnaeth Amy waith gwych yn ysgrifennu'r holl bolisïau a chefnogodd Becky hi drwy ddarllen drwyddyn nhw bob un ac awgrymu unrhyw welliannau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cydymffurfio â'r SGC. Un agwedd yr oedd Amy'n awyddus iawn i'w ddilyn oedd dod yn fusnes di-bapur. Roedd Amy'n deall yr effaith y byddai'n gwneud hyn yn ei gael ar warchod yr amgylchedd, ond hefyd ar yr arbediad cost o ddim gorfod bod â chostau argraffu a phapur.

Roedd hyn yn newydd i Amy a Becky. Treuliodd Amy lawer o amser yn ymchwilio i sut yr oedd pethau'n gweithio, a'r holl nodweddion diogelwch i sicrhau bod data teuluoedd yn cael eu diogelu. Fe wnaethom drafod y gweithdrefnau ar sut y gallai'r Clwb adennill y wybodaeth y byddent eu hangen yn ystod oriau'r Clwb, drwy gopïau wrth gefn pe baent yn cael anawsterau wrth geisio cysylltu â'r rhyngrwyd. Gweithiodd Amy a Becky gyda'i gilydd i ddiwygio'r polisi diogelu data i gynnwys y defnydd o storfa gwmwl.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs wedi dechrau gweithio ar brosiect drwy Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol sy'n cefnogi grwpiau yng Nghymru i gymryd camau ar Newid Hinsawdd. Yn rhan o'r prosiect hwn, rydym fel cyfundrefn yn edrych ar sut y gallwn leihau ein hôl-troed carbon, gan roi ffocws arbennig ar gwtogi ar ein swm o bapur a'n costau argraffu. Mae gweithio o gartref wedi gwneud i ni chwilio am ddatrysiadau arloesol er mwyn parhau i gefnogi'r sector, yn ogystal â'n staff ein hunain, ac i gwblhau'r gweithdrefnau sydd gennym fel cyfundrefn. Rydym wedi ychwanegu at ein casgliad ar-lein o adnoddau i gefnogi'r sector, ac mae'r newyddlen hon yn awr yn cael ei dosbarthu'n ddigidol.

Fel Hey Bina, gallech edrych ar gwtogi ar eich costau argraffu a phapur drwy ddefnyddio storfa gwmwl. Byddai hyn nid yn unig yn gam pwysig o ran gwarchod yr amgylchedd, gallai fod yn arbediad sylweddol i'ch busnes a allai atgyfnerthu'ch cynaliadwyedd yn y dyfodol. Gwelwch eich erthygl ar "fynd yn ddi-bapur" yn y rhifyn hwn o'r Bont am wybodaeth bellach.

Roedd AGC wedi'u plesio'n fawr â chais a pholisïau Heya Bina, ac yn hyderus bod y gweithdrefnau parthed eu storfa gwmwl yn gadarn. Yn ei chyfweliad gydag AGC, roeddem yn disgwyl cwestiynau ychwanegol ar storio yn y cwmwl, ond ni ofynnwyd unrhyw beth arall. Drwy'r adborth a roddwyd tynnwyd sylw at y gyn lleied o angen a oedd am ofyn cwestiynau, gan fod ei chais a'i pholisïau mor drwyadl. Roedd hyn yn dangos pwysigrwydd sicrhau eich bod, wrth gwblhau'ch cais i AGC, yn gwneud eich gorau i gynnwys digon o fanylion a gwybodaeth, rhywbeth y gall eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant eich cefnogi i'w wneud.

Mae taith Heya Bina tuag at gofrestru wedi bod yn gymharol esmwyth, yn enwedig pan ystyriwch y gwnaed hyn oll yn ystod pandemig byd-eang. Roedd hyn i raddau helaeth oherwydd pa mor drwyadl y bu Amy drwy'r holl broses. Yn dilyn archwiliad man cyfarfod gan AGC, yr oedd ychydig bethau yr oedd angen eu haddasu yno. Gyda chefnogaeth y ffrydiau ariannu drwy'r Awdurdod Lleol a chefnogaeth barhaus rheolwyr y Mosg, rydym yn hyderus y bydd y cofrestriad wedi ei gwblhau ac ar waith erbyn Gwyliau'r Pasg.

Os hoffech siarad am gofrestru eich Lleoliad gyda AGC, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant os gwelwch yn dda. Fel y gallwch weld o daith Amy, a chyda'n help ni, gallwn wneud y daith honno'n un y gallwch eu rheoli hyd yn oed yn well.

## Archwiliad Rhithiol Tachwedd 2020

Mae Zoopers, sydd wedi eu lleoli yng Nghasnewydd, wedi bod drwy gyfnod o drawsffurfiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn aros i'w hystafell newydd gael ei hadeiladu yn neuadd yr eglwys. Mae hon wedi bod yn broses hir; ond yn ystod y pandemig roedd modd iddynt ailagor i ddarparu Clwb Brecwast ac Ôl-ysgol, gan symud i ystafell newydd ym mis Tachwedd 2020. Cysylltodd y Person Cofrestredig ag Arolygiaeth Gofal Cymru i'w hysbysu o'r newidiadau yn unol â gofynion y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC), a arweiniodd at yr arolygwr o AGC yn gofyn am fideo o'r ystafell newydd a'i gyfleusterau, cyn cynnal archwiliad rhithiol o'r ddarpariaeth, gan iddi fod yn amser hir ers eu harchwiliad blaenorol.

Cynhaliwyd cyfweliad dros y ffôn rhwng yr arolygwr a'r Person Cofrestredig, gan gymryd tua 1.5 awr yr wythnos cyn i'r archwiliad rhithiol ddigwydd. Yn ystod y cyfweliad hwn bu trafodaeth fanwl parthed dogfennau a anfonwyd yn flaenorol at yr arolygwr.

1. Cofnodion presenoldeb y plant dros wythnosau penodol
2. Asesiadau risg ar gyfer yr ystafell ddosbarth/ Clwb Brecwast/y stafell snac a'r man y tu allan i'r adeilad, yn cynnwys ffotograffau o gynllun yr ystafell
3. Asesiadau risg Covid-19
4. Diogelu, diogelu plant a pholisi a gweithdrefnau Covid-19
5. Dogfen atal haint Iechyd Cyhoeddus a dogfen archwilio rheolaeth
6. Polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch, y log a'r weithdrefn dril tân a ddilynwyd ers gweithredu'n llawn yn y stafell ddosbarth
7. Trefn a dulliau dyddiol ar gyfer cynllunio gweithgareddau ac adnoddau
8. Mae gwybodaeth benodol i leoliadau hefyd yn ofynnol - newidiadau i reoliadau ar adeiladau, newidiadau i gynllun y llawr.

Hefyd cyfwelwyd aelodau o'r staff cyn yr archwiliad rhithiol, a galwadau ffôn yn para rhwng 1 ac 1.5 awr, a oedd dipyn yn hirach na'r archwiliad safle wyneb-yn-wyneb. Gofynnwyd cwestiynau i'r staff ynghylch eu gwybodaeth o ddiogelu a pholisïau a gweithdrefnau eraill y Clwb.

Yn ystod yr archwiliad rhithiol, gofynnodd yr Arolygydd ar gael gweld y plant yn cael snac, ac yn ystod eu hamser chwarae. 'Cyfwelwyd' â sawl un o'r plant drwy gyfrwng gliniadur, ac roedd modd iddynt siarad yn uniongyrchol â'r Arolygydd i roi eu hadborth o'u profiadau yn y Clwb. Aeth popeth yn esmwyth ar y dydd.

Yn dilyn yr archwiliad rhithiol, gofynnodd yr Arolygydd am gael sgyrsiau ffôn â rhieni/gofalwyr. Roedd yr agwedd hon yn fwy heriol o ran cydlynu slotiau amser, yn enwedig gan fod y mwyafrif o rieni/gofalwyr yn gweithio. Hefyd roedd angen caniatadau gan rieni ymlaen llaw i sicrhau bod y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn cael ei ddilyn. Rhoddodd y rhieni adroddiadau cadarnhaol a chanmoliaethus o'r gofal a ddarperir gan y Clwb, a sut roedd y Clwb wedi ymdopi ag effaith cyfyngiadau Covid.

Yn dilyn derbyn yr adroddiad drafft, trefnwyd y broses er mwyn galluogi'r Person Cofrestredig i drafod gyda'r Arolygydd unrhyw ymholiadau a oedd ganddynt o bosibl. Hefyd, roedd y Person Cofrestredig yn cysylltu â Clare, y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant dros Gasnewydd, drwy gydol y broses ac yn derbyn y gefnogaeth i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddaru lle'r oedd angen hynny, a bod unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu gweithredu.

Y mae'n debygol y bydd archwiliadau rhithiol yn parhau hyd y gwelwn, ac efallai y gellid eu gadw ar ryw ffurf yn y 'byd newydd' syn ein haros wedi Covid. Fel yn achos unrhyw systemau a phrosesau newydd, gallai hyn beri ofn ar y dechrau, ond, o'r adborth a dderbyniwyd hyd yma, ymddengys bod modd ei reoli, ac mae digon o gefnogaeth ar gael.

# Hyfforddiant

## Esblygiad Chwarae: Egin newydd

Felly beth mae egin newydd yn ei olygu i'n harferion fel Gweithwyr Chwarae? Os ystyriwn ein harferion yn debyg i gorff o ddŵr, yna dylem anelu at gael afon yn hytrach na phwll. Gall pwll fynd yn farwaidd a'r dŵr yn llonydd, tra bod afon, sy'n llifo'n ddiddiwedd, yn newid yn ddiddiwedd, weithiau'n gorlifo, ar adegau eraill yn rhedeg yn rhwydd ac yn llonydd, yn debyg i sesiwn lle gall yr ymddygiad lwdo-ganolog a arddangosir gan blant fod yn anhrefnus a llonydd, swnllyd a distaw.

Er mwyn gallu ymdopi â'r newidiadau cyson, mae angen i Weithwyr Chwarae fod yn hyblyg ac yn barod i addasu, ac os yw'r flwyddyn ddiwethaf wedi dangos unrhyw beth i ni, mae'r sector Gwaith Chwarae wedi profi eu bod yn hynod abl o wneud hynny.

Felly sut gallwn wneud yn siŵr ein bod yn cadw'n harferion yn gyfamserol, ein bod yn parhau yn abl i addasu a newid gyda'r amserau, er mwyn gwneud yn sicr ein bod bob tro'n bodloni anghenion y plant sy'n mynychu'r Lleoliad?

1. Cadwch yr hyfforddiant a'r wybodaeth yn gyfamserol. Mae mynychu hyfforddiant, clybiau darllen, darllen erthyglau neu adlewyrchu a rhannu arferion gyda Gweithwyr Chwarae eraill oll yn help i gadw'n gyfamserol.
2. Gwnewch amser yn rheolaidd i adlewyrchu a gwerthuso'r amgylchedd a'r adnoddau yr ydych yn eu darparu ar gyfer plant. A yw'r hyn yr ydych yn ei ddarparu yn diwallu'n effeithiol anghenion yr holl blant sy'n mynychu eich Lleoliad?
3. Ymgynghori â'r plant; bod yn ymwybodol o'u hawl i chwarae. Bod yn ofalgar o'u hawl i chwarae. Gall hyn fod drwy holiaduron, trafodaeth dros fyrbryd, waliau graffiti neu lyfrau dymuniad; cymerwch amser o wrando ac ymateb i lais pob plentyn yn eich Lleoliad.
4. Arsylwadau ar chwarae plant; ystyriwch pa fannau ac adnoddau yn yr amgylchedd chwarae sy'n cael eu defnyddio fwyaf, neu'r rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio. Ymatebwch i'r hyn yr ydych yn arsylwi arno, p'un a oes angen mwy o adnoddau ar y plant.
5. Ymgynghori ac adlewyrchu gyda'r staff. Adlewyrchu ar ddigwyddiadau a sesiynau i gefnogi cynllunio effeithiol a hwylustod y man chwarae.
6. Ystyriwch ddefnyddio Fframwaith Sicrwydd Ansawdd i werthuso ac adolygu eich Lleoliad. Ac oes yw hyn yn rhywbeth y byddech â diddordeb ei wneud yn eich Lleoliad, yna gwyliwch yma am fwy ar hyn.

**I ddod yn fuan:** Fframwaith Sicrwydd Ansawdd - Mae Chwarae Cymru'n datblygu Fframwaith Sicrwydd Ansawdd newydd i Leoliadau Gwaith Chwarae. Mae'r datblygiad yn cael ei gefnogi gan grŵp adnoddi yn cynnwys cyflogwyr ym maes Gwaith Chwarae, Gofal Cymdeithasol Cymru, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Swyddfa'r Comisiynydd Plant ac arbenigwyr ym maes Gwaith Chwarae. Caiff y fframwaith newydd ei dreialu yn y Gwanwyn/Haf 2021 a bydd ar gael i'w roi ar waith o Fedi 2021 ymlaen. Bydd y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd terfynol yn cael ei asesu'n allanol a'i rannu'n ddau Ddyfarniad ar wahân - 1) Dyfarniad mewn Arferion Gwaith Chwarae 2) Dyfarniad mewn Trefniadaeth Gwaith Chwarae.

## Sut mae Chwarae'n Helpu Plant i Dyfu

Dywed un o egwyddorion Gwaith Chwarae, 'Rôl y Gweithiwr Chwarae yw cynorthwyo'r holl blant a phobl ifanc drwy greu man y gallant chwarae ynddo'. Mae plant agosaf ar fod yr hyn ydynt wrth chwarae nag ar unrhyw adeg arall.

Felly, beth yw chwarae? Gall chwarae fod yn hwyl neu o ddifrif. Drwy chwarae mae plant yn chwilota i fyd cymdeithasol, materol a dychmygol, a'u perthnasoedd â'r rhain, gan ddatblygu gydol yr adeg amrywiaeth hyblyg o ymatebion i'r heriau y byddant yn dod ar eu traws. Drwy chwarae mae plant yn dysgu ac yn datblygu fel unigolion, ac fel aelodau 'r gymuned (cadwyd yn agos at with Bob Hughes a Frank King yn y diffiniadau yma).

Gall chwarae fod yn nifer o bethau; gall fod yn heriol, yn gyffrous neu'n swnllyd, tawel, cyflym neu araf. Gall fod yn unigol neu mewn grwpiau neu barau. Gall chwarae helpu plentyn i ddatblygu ac archwilio agweddau o'u hunain, ymestyn eu perthnasoedd ag eraill a chynyddu eu hunan-dyb a'u hyder.

Mae tueddiad plant yn naturiol tuag at chwarae, fel y diffiniwyd gan Friedrich Schiller yn y 18fed ganrif (Spieltrieb): mae chwarae'n galluogi plant i ddysgu ac arfer sgiliau newydd, mae'n rhoi cyfle i feddwl yn feirniadol a gall gael effaith therapiwtig. Fel y nododd Aristotle dros 200 flynyddoedd yn ôl, dylai plant chwarae er mwyn arfer y sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer 'Weithgareddau difrifol bywyd yn nes ymlaen'. Drwy eu chwarae bydd plant yn datblygu sgiliau iaith drwy storïau, caneuon, sgyrsiau, sgiliau corfforol yn cynnwys sgiliau motor manwl a bras, sgiliau cymdeithasol, dadlau, rhannu, ymdeimlo ag eraill, gwrando a deall rheolau cymdeithasol; gallu emosiynol, dealltwriaeth ac archwilio teimladau drwy chwarae dychmygol, profi ffiniau i gynyddu hunan dyb, a sgiliau creadigol drwy'r dychymyg a chelf a chrefft.

Mae angen i ni fel oedolion gofio a chyfeirio at y plentyn sydd yn rhan ohonom ni; fel y dywedodd George Bernard Shaw, 'Dydyn ni ddim yn peidio â chwarae am ein bod yn tyfu'n hŷn …. rydym yn tyfu'n hŷn am ein bod yn peidio â chwarae'.

## Ble maen nhw Nawr?

### *Cwestiynau i gyn-fyfyrwyr*




**Rhowch eich enw, a dwedwch ychydig wrthym amdanoch chi a'ch gyrfa mewn Gwaith Chware.** Ben Thomas, wedi fy nghyflogi ar hyn o bryd yn Y Bont fel Uwch Arweinydd Chwarae, wedi derbyn rôl swydd newydd i symud ymlaen yn fy ngyrfa.

Rwyf wedi bod yn weithiwr chwarae ers dros 18 mlynedd. Dechreuais wirfoddoli yn LCDP yn 2002 ac yna cynigiwyd rôl â thâl i mi. Yn y tair blynedd ddiwethaf rwyf wedi gweithio fel arweinydd chwarae yn LCDP, yn cydlynu Clybiau Ôl-ysgol, clybiau gweithgaredd a chynlluniau chwarae.

**Pa Gymwysterau a wnaethoch eu cwblhau gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a pha bryd?** Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae Uwch yn 2019

**Sut ddaethoch chi i wybod am y cymhwyster?** Trwy gyn-gydweithiwr, Phoebe Wilson

**Beth yw eich atgof pwysicaf, neu'ch hoff ran o'r hyn y gwnaethoch ei ddysgu wrth gwblhau eich cymhwyster?** Fe wnes i wirioneddol fwynhau'r gemau

**Allwch chi roi enghraifft i ni, neu esbonio i ni a oes unrhyw beth wedi newid am eich arferion neu rywbeth yn eich Lleoliad yr ydych chi wedi ei newid wedi cwblhau eich cymhwyster?** Ers cymhwyso rwyf wedi ymrestru mwy o staff ar gymhwyster lefel 3 er mwyn sicrhau'r ansawdd o ofal y gallwn ei gynnig.

**A ydy'ch cymhwyster wedi'ch helpu gyda'ch gyrfa? Os felly dywedwch wrthym sut.** Dwi'n credu bod y cymhwyster wedi fy ngalluogi i symud ymlaen yn fy ngyrfa. Mae gen i yn awr sawl cymhwyster lefel 3 a 4 sydd wedi ei gwneud hi'n bosibl i mi wneud cais am well swyddi.

**A fyddech yn argymell y cymhwyster yma?** Byddwn, rwyf wedi argymell hyn i'm holl gydweithwyr.

# Cwrdd â'r Clybiau!

**Enw'r Clwb:** Y Bont – Meithrinfa, Clwb Ôl-ysgol, Clwb Sadwrn a Chlwb Gwyliau

**Sir:** Pen-y-bont ar Ogwr

**Strwythur cyfreithiol:** Elusen

**Gwasanaethau gofal plant sy'n cael eu cynnig?**
Meithrinfa 0-5 mlwydd oed
Clwb Ôl-ysgol (4 -12 mlwydd oed)
Clwb Sadwrn a Chlwb Gwyliau (4-12ml oed)

**Pryd wnaethoch chi agor?** Sylfaenwyd Y Bont yn 1993 gan grŵp o deuluoedd â phlant anabl, a nododd yr angen am ddarpariaeth hygyrch a diogel i blant ag anableddau. Wedi 4 blynedd o godi arian, agorodd y ganolfan, a adeiladwyd i'r pwrpas, yn 1997, gan ddarparu gwasanaethau gofal-dydd arbenigol i blant ifanc.

Agorodd y Family Fun Zone yn 2019, yn cynnig Clwb Ôl -ysgol, y Clwb Sadwrn a'r Clwb Gwyliau, diolch i grant 5-mlynedd o Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol - Pawb a'i Le.

**Beth fu eich her fwyaf hyd yma? Sut wnaethoch chi oresgyn yr her hon?** Yr her fwyaf bob tro i'r Bont yw ariannu; bob blwyddyn mae'n rhaid i ni godi dros £300,000 er mwyn gallu parhau i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol. Daw o leiaf 90% o'n hincwm drwy weithgareddau codi arian, ceisiadau i ymddiriedolaethau ac arianwyr eraill, a rhoddion gan gefnogwyr a busnesau lleol.

Ein her fwyaf hyd yma hyd yma oedd colli'r ariannu i'n Clwb Ôl-ysgol a'n Clwb Gwyliau, a adawodd fwlch enfawr yn ein darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol. Yn 2019 buom yn ddigon ffodus i lwyddo cael grant 5-mlynedd gan Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol ac roedd modd i ni ailsefydlu ein prosiect Family Fun Zone.

Rydym yn hynod ffodus hefyd i fod yn derbyn cymorth ariannol gan Blant mewn Angen a Chronfa Gofal Integredig AMBU.





**Beth yw'r peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Mae'r wobr yn fawr pan fedrwn gynorthwyo plentyn i oresgyn heriau, a chyrraedd eu potensial llawn. Mae'r plant sy'n mynychu ein darpariaeth yn ysbrydoliaeth fawr ac mae'n waith sy'n rhoi boddhad mawr. Mae gan unrhyw blentyn o unrhyw oed yr hawl i chwarae ac rydym yn ffodus iawn i fod â staff arbenigol a chyfleusterau i gefnogi ein plant i ddatblygu a dysgu drwy chwarae.

**Beth yw eich hoff atgof o'r clwb?**
Chwarae yn yr awyr agored yn yr haf
Diwrnod agored i'r prosiect Family Fun Zone newydd – injans tân, ceir heddlu, chwarae y tu allan a.y.b.
Ein pen-blwydd yn 21 - cerddoriaeth, perfformwyr syrcas, chwarae llawn llanast, anifeiliaid a.y.b.

**Beth mae'r plant yn hoffi ei wneud fwyaf yn eich clwb?** Mae'r plant wrth eu bodd yn cael y rhyddid i chwilota mewn amgylchedd diogel, hwyliog. Mae ein gwasanaeth wedi ei seilio ar chwarae a arweinir gan y plant, ac maen nhw'n mwynhau dewis eang o deganau, gemau a gweithgareddau. Mae chwarae llawn llanast, chwarae synhwyraidd a chwarae yn yr awyr agored yn ffefrynnau sicr i'r plant amrywiol yr ydym yn eu cefnogi.

**Enw'r Clwb:** Clwb Amlapiol a Gwyliau Hendrefoilan

**Sir:** Abertawe

**Strwythur cyfreithiol:** Masnachwr Unigol

**Gwasanaethau gofal plant sy'n cael eu cynnig?** Rydym ar hyn o bryd yn cynnig Clwb Amlapiol, Ôl-ysgol a Gwyliau.

**Ar agor ers:** 2017

**Beth yw'r peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol?** Y peth gorau am weithio mewn Clwb Gofal Plant Allysgol yw ein bod yn cael llawer o hwyl a'n bod yn gallu gweithio oriau hyblyg gan fod gennym dîm gwych o staff yn gweithio gyda'i gilydd!

**Beth yw'ch hoff atgof o'r clwb?** Ry'm ni'n mwynhau gweld y plant yn datblygu sgiliau ac yn eu gwylio'n tyfu wrth iddyn nhw ddal i ddod i'n lleoliad.

**Beth mae'r plant yn hoffi ei wneud orau pan fyddant yn eich clwb?** Mae'r plant yn dwlu ar fod gyda'u ffrindiau a bod y tu allan. Ry'n ni'n treulio'r rhan fwyaf o'n hamser yn yr awyr agored ac mae'r plant wrth eu bodd gyda hynny!



# Tyfwch eich Gwledd eich Hun

Wrth i ni gamu i mewn i'r Gwanwyn rydym wedi'n cyffroi'n lân i fod yn gweithio gyda'n partneriaid amrywiol ar ein prosiect 'Tyfwch eich Gwledd eich Hun'. Yn ymuno â ni bydd Terry Walton, Adele Nozedar, Clybiau ar hyd a lled Cymru ac unrhyw un arall a hoffai roi cynnig arni.

Dechreuodd Terry Walton arddio pan oedd yn 4 blwydd oed ac mae wedi bod yn tendio'r un rhandir ers dros 50 mlynedd ers cymryd drosodd yn 11 mlwydd oed. Mae yn awr yn darlledu o'r un rhandir yma ar sioe radio Jeremy Vine ar Radio 2, ac fel garddwr organig mae'n tyfu eu holl gynnyrch ei hun, gan ddefnyddio dulliau holl-naturiol o roi maeth iddynt. Mae Terry wedi cyhoeddi nifer o lyfrau.

Mae Adele Nozedar yn teimlo'n angerddol dros natur a fforio, ac mae'n edrych ymlaen at ein cymryd ar siwrnai fforio. Yn awdures sydd â gwaith wedi'i gyhoeddi, mae'n rhedeg 'Brecon Beacons Foraging' yng nghanol Bannau Brycheiniog.

Bydd y ddau yn rhoi eu cynghorion campus i ni ar dyfu a chynaeafu bwyd ar yn ein darn bach o dir ein hunain. Rydym hefyd am estyn croeso cynnes iawn i'n 8 enillydd yn y gystadleuaeth - 8 clwb a fydd yn mynd ar eu siwrnai dyfu arbennig eu hunain gyda chefnogaeth Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Ond cael pawb i roi cynnig arni yw pwrpas y prosiect yma – plant, rhieni, garddwyr lleol, rhieni-cu, unrhyw un – hyd yn oed os mai tyfu rhywfaint o berlysiau a thomatos mewn basged grog a wnawn ni. Byddwn yn rhannu rhai syniadau a ryseitiau y gall unrhyw un roi cynnig arnynt ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn gobeithio y byddwch chi yn ogystal yn ymuno â ni drwy rannu'ch profiadau a'ch syniadau eich hunain ar dyfu drwy ddefnyddio **#growyourownfeast a thagio Clybiau Plant Cymru Kids' Club**. Heb unrhyw oedi bellach, mi wnaf adael i'r arbenigwyr wneud y siarad a chyflwyno'u hunain wrth i ni oll ddechrau ar ein prosiectau tyfu yn ein darnau bach o dir, ac fe'ch gadawaf gyda'r dyfyniad hyfryd hwn...

**"Gwanwyn, atgoffiad hyfryd o ba mor brydferth y gall bywyd fod."**

## I Ffwrdd i Fforio gydag Adele Nozedar



HELO, a chroeso mawr iawn i newyddlen gyntaf 2021 oddi wrtha i, Adele Nozedar. Rwyf wedi cyffroi'n lân i fod yn ymuno â chi bob un ar y daith ysblennydd hon wrth i ni weithio (a chwarae!) gyda'n gilydd i roi help llaw i'n plant ynglŷn â natur, dod i wybod am blanhigion gwyllt hawdd bwytadwy a sut i'w defnyddio, plannu hadau ac wrth gwrs goginio prydau rhyfeddol yn rhan o brosiect Tyfwch eich Gwledd eich Hunain!


Ond gadewch i mi yn gyntaf gyflwyno fy hun. Rwy'n awdur, yn fforiwr ac yn addysgwr. Er fy mod i o Sir Efrog, fe syrthiais mewn cariad â Chymru ac rwyf wedi byw yma ers 1994. Yr hyn dwi wrth fy modd yn ei weld yw plant yn cysylltu â natur drwy'r planhigion gwyllt mwyaf cyffredin, mwyaf blasus ac wrth gwrs, mwyaf diogel, yng Nghymru.

Er mai fel hyn y mae'r tywydd yn edrych ar hyn o bryd ym Mannau Brycheiniog, mae llawer yn mynd ymlaen yn y coed, y caeau, y dolydd a hefyd ar strydoedd dinasoedd ac mewn parciau wrth i'r ddaear ddechrau deffro. Er na allwn weld hyn bob tro, dyw natur byth yn cysgu. Eisoes, os ydych chi'n gwybod ble i edrych, mae'r dail ifanc tenau garlleg gwyllt fel nodwyddau'n gwthio'u ffordd drwy'r ddaear rewllyd. Yr enw botanegol ar y planhigyn blasus hwn yw Allium Ursinum, 'bears garlic' yn y Saesneg, gan yr arferwyd credu bod eirth yn arfer bwyta'r dail yma o flas siarp garlleg yn syth wedi eu gaeafgwsg er mwyn rhoi cychwyn sydyn i'w systemau treulio. Ni chawn wybod fyth efallai a yw hyn yn wir, ond mae bwyta bwyd ffres yn sicr yn gwneud lles i ni hefyd. Enw arall ar y planhigyn hwn yw Ramsons. Dyma'r cyntaf o'r planhigion y byddwn yn chwarae â nhw, ac rydym yn ffodus yng Nghymru i gael cymaint ohono.



Mae dysgu i adnabod planhigion yn brofiad gwirioneddol synhwyraidd; er enghraifft, ni ellir camgymryd arogl garlleg gwyllt am unrhyw beth arall, hyd yn oed os nad ydych eto'n sicr o'i ymddangosiad. Er bod sawl math o arlleg gwyllt, y newydd da yw bod holl deulu'r planhigyn hwn nid yn unig yn fwytadwy ond yn dda iawn ar gyfer cadw'ch system imiwnedd yn iach; mae hyn yn beth da, yn enwedig yn ystod y misoedd yma o newidiadau tymhorol.

Y mae hefyd yn debygol y bydd fy nghydymaith fforio cyson, Lis, am gyfarfod â chi. Fe'ch cyflwynaf iddi y tro nesaf. Yn y cyfamser, treuliwch gymaint o amser ag y gallwch yn yr awyr agored. Fforio Hapus! Xxx





## Tyfu'ch Gwledd eich Hun gyda Terry Walton



Llun: BBC

Mae'n bleser mawr gen i fod yn rhan o brosiect Canmlwyddiant Tesco, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Terry Walton ydw i, garddwr sy'n ymddangos ar sioe Jeremy Vine ar Radio 2 ar brynhawniau Gwener i roi diweddariadau o'm rhandir yng Nghwm Rhondda. Rwyf hefyd yn ymddangos ar sioe This Morning ITV yn uniongyrchol o'm rhandiroedd. Rwy'n westai rheolaidd sioe Eleri Sion ar BBC Wales a hefyd ar Radio Rhondda, Radio Kent a Radio Hereford and Worcester. Rwyf wedi ysgrifennu dau lyfr ac rwy'n ysgrifennu sawl cyhoeddiad ar arddio.

Rwy'n arddwr organig a dim ond yn defnyddio defnyddiau naturiol i wella'r pridd, dim chwynladdwyr i reoli pla, dim ond atalfa, a rheoli pla drwy ddefnyddio dulliau naturiol megis atalfeydd neu chwistrellu dŵr ar bla i gael gwared â nhw

Misoedd Mawrth i Fehefin yw'r adeg brysuraf yn y calendr garddio, a dyma ychydig o dips i roi cychwyn i chi.

### Tatws

Mae ar y rhain angen pridd wedi ei baratoi'n dda a digon o gompost a gwrtaith wedi'i bydru'n dda wedi'u hychwanegu. Mae tri math o datws, y rhai cynnar sy'n cynaeafu mewn 12 wythnos, yr ail gynharaf sy'n cynaeafu mewn 14 i 16 wythnos ac yna'r prif gnwd sy'n cymryd 20 i 22 o wythnosau. Dechreuwch blannu yn hwyr ym mis Mawrth gyda'r rhai cynharaf ac yna dilynwch mewn cyfnodau o bythefnos gyda'r ail gynharaf ac yna'r prif cnwd. Plannwch i chwe modfedd o ddyfnder.

### Ffa

Gellir plannu ffa llydan ym mis Mawrth a ffa dringo a ffa Ffrengig ym mis Mai. Mae angen pridd ffrwythlon iawn arnynt i ffynnu. Bydd angen ffyn ar gyfer y ffa dringo a gallant dyfu at hyd at wyth troedfedd o uchder.

### Bresych

Mae'r teitl uchod yn cwmpasu popeth 'bresychaidd' ei natur, megis blodfresych, ysgewyll a brocoli. Mae ar y rhain angen tir sy'n rhydd o wrtaith, ond sydd â digonedd o galch wedi'i ychwanegu am fod arnynt angen lefel PH uchel i ffynnu.

### Cnydau Gwreiddlysiau

Dyma'r grŵp o gnydau, megis moron, pannas a betys, sy'n tyfu islaw 'r ddaear. Mae arnynt angen pridd sy'n rhydd o wrtaith ac sydd â digonedd o gompost da wedi ei ychwanegu. Mae arnynt angen pridd sy'n rhydd o gerrig i atal y gwreiddiau rhag cael eu tynnu i lawr.

### Cnydau salad

Gellir tyfu letys a shibwns yn unrhyw le, a does dim angen paratoad arbennig arnynt. Mae ar domatos, ciwcymbrau a phuprynnau angen cysgod tŷ gwydr a gellir eu tyfu mewn borderi, potiau neu fagiau tyfu. Fel yn achos y cnydau mae angen eu bwydo i ddod â nhw at eu gorau, a dwi'n defnyddio trwyth gwymon, sudd cwmffri a sudd danadl, y cyfan â dŵr wedi'i ychwanegu i roi tipyn o hwb iddynt.



### Salad Peli Had

Gallech ddefnyddio cymysgedd o hadau llysiau salad (e.e. letys, radis, shibwns) gan wneud yn siŵr fod ganddynt le i dyfu. Mae blodau gwyllt hefyd yn ddewis da o hadau ar gyfer peli had oherwydd ym myd natur maent yn hunanblanedig ac mae eu hegin yn wydn, yn gofyn am ychydig o ofal. Bydd y blodau'n denu gwenyn ac yn gwneud arddangosiadau ardderchog i'ch gwledd.

**Beth fyddwch eu hangen**

· Clai (ar gael o siopau crefft)
· Compost neu bridd potio
· Hadau (hawdd-i'w-tyfu neu amrywiadau cynhenid)

**Beth i'w wneud**

1. Rhannwch eich defnyddiau fel bod gennych:
   · 5 rhan yn glai
   · 1 rhan yn gompost/pridd potio
   · 1 rhan yn hadau
2. Cymysgwch y clai a'r compost. Ychwanegwch ychydig o ddŵr os yw'ch cymysgedd yn sych. Dylai'r cymysgedd fod yn wlyb ond nid yn socian; fel toes bisgedi.
3. Ychwanegwch yr hadau at y clai a'r compost. Cymysgwch y rhain gyda'i gilydd gyda'ch dwylo.
4. Siapiwch y cymysgedd yn beli tua maint pêl golff.
5. Gallwch blannu'r peli had pan fyddan nhw'n dal yn wlyb, neu gadewch iddyn nhw sychu yn yr aer.
6. Dowch o hyd i ardaloedd y n eich gardd. Taflwch neu gosodwch eich peli had ar ddaear foel. Cyhyd ag y bo'r rhain wedi'u dyfrio (â llaw neu gan law), bydd y clai'n chwalu a'r hadau'n tyfu.

## Hwb i'r Hinsawdd

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cydnabod yr effaith y mae'n ei gael ar yr amgylchedd lleol. Cyn Covid-19 deilliodd yr effaith hon o'r ffordd y gwnaethom ddarparu ein gwasanaethau a'n prosesau. Er inni fod yn ymwybodol o hyn, rydym wedi ceisio ffyrdd yn barhaus i leihau'r effaith wrth ddylanwadu ar gamau amgylcheddol eraill drwy, er enghraifft, reoleiddio, rhoi cymhelliad a chynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol.

Ers i waharddiadau Covid-19 ddod i rym ym mis Mawrth 2020 mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, ynghyd â llawer iawn o sefydliadau eraill wedi lleihau'r effaith y mae wedi ei gael ar yr amgylchedd lleol a thrwy Hwb i'r Hinsawdd, Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol rydym yn awr yn ceisio ffyrdd pellach o gynnal y lleihad yn yr effaith yr ydym yn ei chael ar hyn o bryd wedi cyfyngiadau Covid-19.

Fel y byddwch wedi darllen yn yr erthygl 'Mynd yn Ddibapur' yn y rhifyn yma o'r Bont, mae gan y cynhyrchiad a'r defnydd o bapur effaith fwy sylweddol nag yr oeddem gynt wedi ei feddwl.

Drwy gydol y cyfyngiadau rydym wedi codi i'r her a newid y ffordd yr ydym yn gweithio er mwyn dal i gefnogi'r sector Gofal Plant Allysgol drwy gefnogaeth fusnes a hyfforddiant mewn cymwysterau. Rhagwelir y byddwn, drwy ariannu'r Hwb i'r Hinsawdd, yn ymestyn ac yn ehangu ein gallu i gyflenwi cefnogaeth a hyfforddiant o ansawdd da.

Caiff yr ariannu ei ddefnyddio'n ogystal yn gam cyntaf o brosiect llawer mwy, a fydd yn gweld prosesau trefniadol a fydd yn gymorth i leihau'r defnydd o bapur.



Mae gennym oll ran i'w chwarae mewn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol am wybodaeth bellach.
Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Cymraeg

Daeth gweminarau'n ddigwyddiadau eithaf rheolaidd yn ein hamgylched gweithio yn ystod y pandemig, ac mae hyn efallai fwyaf amlwg yn ein prosiect ar ddatblygu'r iaith Gymraeg. Arweiniodd ein methiant i gyfarfod â lleoliadau'n uniongyrchol at gyfle i ni oll ddatblygu sgiliau ar-lein a ffyrdd o ymgysylltu â Chlybiau mewn ffordd fwy amgylcheddol gyfeillgar drwy Teams/ Zoom, ebost a ffôn.

Fel cyfundrefn rydym yn gweld heriau a manteision datblygu ein holl adnoddau'n ddwyieithog, gan sicrhau nad yw'r sawl sydd am gyfathrebu drwy'r Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na phetaent yn gwneud drwy'r Saesneg. Bu hyn nid yn unig o fudd o safbwynt cyfundrefnol, ond hefyd o safbwynt personol. Drwy gyfathrebu'n ddwyieithog ym mhob newyddlen, gweminar a gohebiaeth, rydym yn gosod y safon yr hoffem ei gweld drwy Gymru gyfan, a chan fod nifer ohonom ein hunain yn siaradwyr Cymraeg, rydym yn dal i ddatblygu ac addasu ein sgiliau ein hunain drwy'r ffordd newydd hon o weithio. Mae ein hymdrech fel tîm i sicrhau nad oes unrhyw beth yn gadael ein cyfundrefn heb ei gyfieithu, o dan arweiniad, ein cyfieithydd rhyfeddol, Helen, i raddau o helaeth, wedi cynyddu ein sgiliau ein hunain yn yr iaith Gymraeg ar bob lefel, sy'n brawf di-os i ni fod 'rhoi cynnig arni' yn gweithio go iawn o ran datblygu yn yr iaith Gymraeg. Mae sgiliau yn yr iaith Gymraeg yn dal i ddatblygu ac esblygu drwy gydol ein bywydau, ac mae gwthio'r ffiniau yn dod â sgiliau ychwanegol a hyder yn ei sgil, y pethau a nodir yn aml yn rhesymau dros beidio â defnyddio'r iaith yn fwy. Fel tîm rydym wedi mwynhau'r cyfle i ddatblygu'r adnoddau hyn, a datblygu ein sgiliau ein hunain yn yr iaith Gymraeg. Does dim dwywaith fod darparu'r 'Cynnig Gweithiol' yn her i ni a'n lleoliadau, ond mae o fudd i ni oll.

# Llamu mlaen yn 2021

**Enw:** Becky Hall

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Y sialens fwyaf oedd ceisio jyglo pob peth. Roedd hi'n bwysig i mi fod fy mhlant yn cael eu diogelu'n emosiynol cyn belled â phosibl, ac yn cael y cyfle i chwarae gymaint â phosibl i'w cefnogi gyda'r newidiadau cyson i'w byd. At hynny roedd y mynyddoedd o ddysgu cyfunol yr oedd yr ysgol yn gofyn amdano, yn ogystal â chadw i fyny â'm llwyth gwaith yn heriol, a does gen i ddim cywilydd dweud i mi gael sawl moment ansicr. Roedd y gefnogaeth a gefais o'r gyfundrefn a'm cydweithwyr yn amhrisiadwy, gwnaeth hyn wirioneddol godi fy ysgryd ar ddyddiad pan oeddwn wedi fy llethu. Dysgais ei bod yn amhosibl gwneud popeth, ac nad oedd ceisio gwneud hynny hyd yn oed yn lles i'r un ohonom ni. Felly gadewais i'r plant arwain o ran y pethau roedden nhw'n gallu ei wneud ar ddiwrnod arbennig; fe drefnais eu llwythi gwaith o gwmpas fy llwyth gwaith fy hun; ar fy niwrnodau tawel i fe wnaethom ni fwy o ddysgu cyfunol, ac ar y diwrnodau pan oedd gormod i'w wneud fe dderbyniais nad oedd hi'n bosibl a rhoddais fwy o gyfleoedd ac adnoddau iddyn nhw chwarae'n annibynnol. Dysgais i ollwng gafael ar y pethau na allwn eu rheoli, derbyn ein bod bob un ddim ond yn ceisio llywio ein hunain drwy sefyllfa anodd iawn, ac y dylwn fod yn garedig ataf fy hun. Mae fy mhlant yn hapus, fy ngwaith wedi'i wneud. Ac mae hynny'n ddigon.

**Pe gallech fod newid unrhyw beth, beth fyddai wedi bod a pham?** Dwi am ddweud y byddwn wedi bwyta llai, a dewis bwyd gwell, achos fe fydd hi'n dasg aruthrol cael gwared â'r holl bwysau cyfnod clo, ond i fod yn garedig â mi fy hun, yr oedd rhai pethau hawdd a chyflym i'w gwneud, er efallai ddim mor gydnaws â deiet da, yn gwneud y dydd yn haws. :)

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar gyfer dechrau 2021?** Rwy'n edrych ymlaen at y dydd y cawn y cyhoeddiad y gallwn fynd allan eto, gan wybod y gall y penwythnosau olygu ffonio fy nghyfnither a mynd i'r parc neu allan am y diwrnod gyda'n plant! Gallu cynllunio tripiau neu wyliau heb boeni a fyddant yn cael eu canslo. Cynllunio aduniad enfawr gyda'r teulu, lle gallwn oll ddathlu'r penblwyddi niferus yr ydym wedi eu colli yn ystod y cyfyngiadau. Yn y cyfamser, dwi'n edrych ymlaen at arafu tipyn peidio â rhuthro i gael pawb i'r lleoedd y dylent fod, mwy o gwtsho wrth wylio ffilm.

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** I gwblhau fy Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae. Rwyf bron yna, dim ond angen un gwthiad bach eto. Rwy'n bwriadu bod yn llym â mi fy hun, yn cadw 2 awr yn rhydd ar benwythnosau i weithio a gwaith ysgrifenedig, gan wneud yn siŵr fod gen i'r cydbwysedd rhwng hynny, y plant ac amser i ymlacio.

**Beth hoffech ei ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol? (h.y. mewn 12 mis)?** Allet ti ddim bod wedi trio'n galetach na wnest ti, ac weithiau mae digon da yn ddigon.

**Enw:** Nicole Lovatt

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Dwi'n credu mai fy her fwyaf yn y 12 mis diwethaf yma oedd mynd ar goll ym mhob peth a oedd yn mynd ymlaen. Yr oedd adegau pan allwn fod wedi galw am dîm achub i ddod o hyd i mi. Fe'i ces yn anodd yn ystod y dechrau i wybod y gwahaniaeth rhwng cartref a gwaith, roeddent fel petaent wedi'u cyfuno, a chymerodd amser (yn feddyliol) i'w gwahanu.

**Pe gallech fod wedi newid unrhyw beth, beth fyddai a pham?** Petawn i wedi gallu newid unrhyw beth, peidio â bod mor llym arnaf i fy hun fyddai hynny, cydnabod bod amser i mi mor bwysig ag ydyw i bawb arall.

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Mae 2021 yn llechen lân'; er bod y byd yn ymddangos yr un peth, i mi y mae'n llechen lân, a gallaf edrych am gyfleoedd newydd, pethau newydd i'w dysgu a'u gwneud.

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** Rwy'n bwriadu gorffen fy nghyfres celf Mabinogion; drwy wneud yn siŵr y byddaf yn ei orffen.

**Beth hoffech chi ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol (h.y. mewn 12 mis)?** Y bydd hyn eto'n mynd heibio, ac i drin eich hunan yn garedig. Rydych chi'n ddigon cryf, ac mae'r raddfa lwyddiant hyd yma'n 100% - cofiwch hynny bob tro.



# Codi Hwyl wrth Godi Arian

Efallai mai codi arian fu'r peth olaf ar eich meddwl yn ystod yr adegau heriol hyn, ac eto byddai'ch lleoliad wedi dal i god angen ei ariannu er mwyn gallu goroesi, ac felly yn y rhifyn yma o'r Bont bydd y dudalen hon yn rhoi ambell i air o gyngor ar bethau i'w hystyried wrth ysgrifennu cais am grant.

## Deg Cyngor Pwysicaf ar Ysgrifennu Ceisiadau am Ariannu

**1. Byddwch yn glir ynghylch yr hyn yr ydych ei eisiau a pham.** Casglwch eich pwyllgor ynghyd i drafod beth sydd ei angen arnoch, daliwch i ganolbwyntio ar eich pwrpasau elusennol a chynlluniwch ymlaen llaw. A ydych chi'n gwybod faint o arian sydd angen i'r Clwb ei godi, ac erbyn pryd? Gall eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant eich helpu gyda hyn.

**2. A yw'r clwb wedi ei gyfansoddi'n gywir?** A oes gennych bwyllgor, sydd wedi ei gofrestru i ddilyn pwrpas elusennol? A oes gan y clwb gyfrif banc a dogfen lywodraethol? Gall eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant eich cynorthwyo chi a'r pwyllgor drwy roi cyngor ar ai bod yn Sefydliad Cofrestredig Elusennol (CIO) yw'r llywodraethiad cywir i'r clwb.

**3. Ymhle i ddod o hyd i'ch grant?** Y mae'n aml yn well dechrau gyda'ch gwybodaeth leol. Gallwch weld ein rhestr o arianwyr sydd ar gael a'i lawrlwytho o'n gwefan: www.clybiauplantcymru.org. Gallwch ofyn i'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, eich cyngor gwasanaethau gwirfoddol lleol, Swyddog Gofal Plant neu Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich awdurdod lleol, neu safleoedd ar y rhyngrwyd megis: www.wcva.org.uk. Os yw eich cais yn gysylltiedig â **Covid 19** gwelwch wefan CGGC: https://wcva.cymru/views/coronavirus-funding-which-should-i-apply-for/

**4. Gwiriwch a ydych yn gymwys.** Edrychwch ar bwrpasau'r grant a gweld a yw'n cyfateb ag amcanion eich clwb. Darllenwch y terfynau amser, eu hamcanion a'u blaenoriaethau cyn penderfynu gwneud cais.

**5. Rhannu'r baich.** Gofynnwch am gefnogaeth gan aelod o'r pwyllgor, neu a oes unrhyw rai o'ch rhieni a allai eich cynorthwyo? Efallai fod ganddynt sgiliau arbenigol mewn cyllid/ marchnata/cynllunio busnes.

**6. Gwneud Cais am Ariannu – darllenwch y cais yn ofalus.** Felly, rydych chi'n barod i wneud cais. Darllenwch y nodiadau canllaw a'r pecyn cais eto. Gwiriwch y llinell derbyn. Dyfeisiwch gynllun.

**7. Caniatewch ddigon o amser, peidiwch â rhuthro.** Gall gwneud cais am ariannu gymryd amser; mae'n bwysig eich bod yn neilltuo digon o amser i gwblhau'r cais; ni fydd modd i chi gyflwyno'ch cais os bydd yn cael ei gwblhau wedi'r dyddiad cyflwyno..



**8. Casglu ynghyd ddogfennau a pholisïau.** Casglwch ynghyd yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arnoch e.e. polisïau, cyfansoddiad, costau, cyfrifon diwedd y flwyddyn a.y.b. Os ydych yn aelod mae gennym Arweiniad Cam wrth Gam manwl, rhad ac am ddim ar Ysgrifennu Ceisiadau am Ariannu, lle gallwch nodi'r holl wybodaeth y byddwch o bosibl ei hangen ar hwn.

**9. Cwblhewch gyllideb neu rai costau.** Gall eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant eich helpu i ddatblygu rhagolwg llif arian, cynllunio busnes a/neu gynllun busnes.

**10. Ysgrifennu'r cais. Paratowch y cais yn ofalus; byddwch yn glir ac yn gryno ynghylch** y rheswm y mae angen am y prosiect; gwerthwch fuddiannau'r Clwb. Os ydych yn aelod gallwch ddefnyddio ein hadnodd ***rhad ac am ddim***, sydd wedi ei ddatblygu'n arbennig i gynorthwyo Clybiau Gofal Plant Allysgol. **Gofynnwch i ni am ein Harweiniad Cam wrth Gam i Ysgrifennu Ceisiadau am Ariannu.**

Am gefnogaeth bellach gofynnir i chi anfon e-bost i'ch swyddfa ranbarthol
Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org

## Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.

## e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef **www.clybiauplantcymru.org** ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.



# Prosiectau

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Cysylltu a Chefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol a Chymunedau

Blwyddyn i mewn i’n prosiect sydd wedi ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol, ac er gwaethaf Covid rydym wedi gweithio gyda’n gilydd a gyda chi i gyfarfod deilliannau ein prosiect. Mae’r prosiect 3-blynedd hwn yn anelu at weithio gyda chi i ddatblygu a chryfhau Clybiau Gofal Plant Allysgol a 3 Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant yn cefnogi yn y ffyrdd canlynol:

• darparu **cefnogaeth barhaus i fusnesau gofal plant** er mwyn gwella llywodraethiad a sgiliau busnes;
• cyflenwi **Digwyddiadau Rhwydwaith Rhanbarthol**, a **Chlybiau’n datblygu’r** fformat a’r cynnwys;
• datblygu **cynlluniau gweithredu unigol** i adeiladu ar **gryfderau**;
• helpu gyda chofrestru ag Arolygiaeth Cymru a chyda chynlluniau megis Y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth sy’n gwella fforddiadwyedd;
• **cydweithio ag eraill** sy’n cynrychioli ac yn cefnogi’r sector er mwyn sicrhau cyngor cywir.

Mae’r rhain yn y pen draw yn anelu at gael chwarae a gofal o ansawdd gwell, gwell fforddiadwyedd a gofal plant mwy cynaliadwy, sydd wedi ei lywodraethu’n dda, a fydd yn rhoi parhad yn y gofal a gaiff y plant.

Wrth gwrs, daeth 2020 â heriau nas rhagwelwyd, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol am yr ariannu ychwanegol, sy’n rhoi mwy o gapasiti i ni allu ymateb i anghenion hollbwysig, esblygol ein cymuned allysgol.

Drwy hyn oll fe wnaethom barhau i ymgysylltu â chi, gan roi gwybodaeth a sicrwydd, a gwrando ar yr hyn yr oeddech ei angen gennym er mwyn mynd i’r afael â’ch heriau. Mewn ymateb i hyn, fe wnaethom ddatblygu dros 85 adnodd newydd, dwyieithog, canllawiau a thempledi i’ch cefnogi drwy’r adeg allweddol yma, gan roi sylw i, e.e. ariannu a systemau ariannol; marchnata; ailagor a chefnogaeth Covid-benodol; cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, llywodraethiad a chau dros dro. Fe wnaethom ddefnyddio’r adnoddau newydd hyn i barhau i ddarparu mentora busnes, gan gwmpasu llu o bynciau, yn cynnwys cynllunio busnes, ariannu, marchnata, ysgrifennu polisïau a chadw cofnodion.

*“Diolch. Ry’ch chi wedi bod yn gefnogaeth wych dros yr adegau cythryblus yma, gan roi toreth o wybodaeth, brwydo drosom a rhoi i ni bolisïau/templedi ar gyfer ailagor.”*

Yn llais y sector, fe wnaethom hefyd basio ymlaen eich heriau a’ch anghenion i er mwyn helpu i ddylanwadu ar y sawl sy’n gwneud y penderfyniadau.

Aeth ein hyfforddiant ffurfiol (cymwysterau Gwaith Chwarae a Diogelu), sesiynau sgiliau busnes a digwyddiadau rhwydwaith ar-lein yn gyflym. Fe wnaethom gyflenwi 12 gweminar rhwydwaith fyw a recordio cyfres o weminarau ar bynciau perthnasol, y gallwch wneud cais amdanynt ar unrhyw adeg.

Er nad dyma oedd y flwyddyn gyntaf ddisgwyliedig o’r prosiect, na’r un a gynlluniwyd gennym, rydym oll wedi dysgu a chyflawni llawer (gweler crynodeb ar y diwedd).

### Blwyddyn newydd, ffocws newydd i’r Prosiect Lotri

Yn awr yn fwy nag erioed, mae adeiladu gwydnwch busnes yn ein sector yn parhau’n flaenoriaeth, a gallwch eich helpu yn y ffyrdd canlynol dros y ffôn, e-bost, cynadledda fideo drwy ddefnyddio Teams/Zoom a, gobeithio, heb fod yn rhy bell i’r dyfodol, wyneb yn wyneb.

· **Gallwn ddarparu cefnogaeth busnes gofal plant wedi ei deilwrio** i ateb anghenion eich clwb unigol ar ddewis eang o bynciau, yn cynnwys ariannu, polisïau, cynllunio ariannol ac eraill.


· **Ymunwch â ni a chlybiau eraill yn ein gweminarau rhwydwaith** i gadw mewn cysylltiad, rhannu datrysiadau a chadw’n gyfamserol o ran newidiadau mewn polisi ac arferion da. Archebwch le ar ein tudalen hyfforddi ar www.clybiauplantcymru.org. Gallwch hefyd wneud cais am ein gweminarau canlynol a recordiwyd er mwyn eu gwylio yn eich amser eich hun: Dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE); Cynllunio Ariannol, Rhagolygon Llif Arian; Cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Marchnata ar y Cyfryngau Cymdeithasol drwy ebostio webinar@clybiauplantcymru.org.

· **Gadewch i ni adlewyrchu ar bob agwedd ar eich lleoliad, gan ddefnyddio’r Asesiad o Ofal Plant Allysgol.** Bydd hwn yn eich helpu i adnabod eich cryfderau eich hun ac i weithio gyda’r Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant i nodi’r camau ar gyfer gwella a datblygu drwy gynllun gweithredu pwrpasol yn ogystal â ffurfio rhan o’ch Adolygiad Ansawdd Gofal i AGC. Gellir cwblhau hyn ar-lein https://forms.gle/AYYo6yNX6h8PXRZh7

· **Gwella fforddiadwyedd** eich Lleoliad Gofal Plant i helpu i hybu presenoldeb, incwm a chynaliadwyedd. Mae’r cais am gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi symud i ddull ar-lein byrrach a symlach, a gallwn eich helpu i gofrestru. Yna gallwn eich helpu i gynnig Gofal Plant Di-dreth (https://www.gov.uk/government/news/tax-free-childcare-top-things-childcare-providers-should-know), gan alluogi rhieni cymwys sy’n gweithio i gyrchu cyfraniad o 20% tuag at ffioedd: Y Cynnig Gofal Plant yn galluogi rhieni/gofalwyr plant 3-4 blwydd oed i gyrchu 30 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu’n llawn. Mae cofrestru ag AGC hefyd yn eich galluogi i gyrchu grantiau cynaliadwyedd gofal plant ac yn rhoi sicrwydd ansawdd i blant; gallech ddefnyddio hyn wrth hyrwyddo eich lleoliad.

· **Cyfyngu eich cyfrifoldeb ariannol personol.** Bu’r amser yma’n un pryderus i bob busnes, ac nid yw cwmnïau yswiriant bob tro wedi talu yn achos colledion. Bydd rhai arianwyr ddim ond yn dyfarnu grantiau i Leoliadau sy’n gorfforedig (sydd wedi eu cydnabod yn gorfforaeth gyfreithiol). Mae yn awr yn amser da iawn i adolygu’ch llywodraethiad gyda’n cefnogaeth ni, a sicrhau bod perchnogion / aelodau’r pwyllgor yn cael eu diogelu’n ddigonol. P’un a ydynt wedi eu rheoli’n breifat neu drwy bwyllgor rheoli gwirfoddol, gallwch gyfyngu ar eu cyfrifoldeb personol drwy ddod yn gorfforedig (e.e. cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol). Er bod nifer o leoliadau wedi wynebu pwysau a heriau ychwanegol, bu cynnydd yn y diddordeb mewn gwella llywodraethiad. Dros y cyfnod clo mae 7 Lleoliad wedi llwyddo i gofrestru gydag AGC er mwyn diogelu aelodau pwyllgorau yn well a chael mynediad at fwy o ariannu. Mae 37 o Leoliadau wedi estyn allan am wybodaeth bellach ac maent yn parhau â diddordeb.

### Cyflawniadau’r Prosiect yn 2020






# Diweddariadau Adnoddau Dynol

### A wyddech chi?

Mae’n bwysig ystyried y gwahaniaeth rhwng **gwahaniaethu cadarnhaol** a **gweithredu cadarnhaol** pan ofynnir am ‘well amrywedd’. Mae gweithredu cadarnhaol yn cynnwys dweud yn glir bod croeso i grwpiau a dangynrychiolir megis menywod neu rai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Y mae’n cynnwys rolau hysbysebu lle mae’r rhai sydd wedi eu tangynrychioli yn debygol o’u gweld. Ond mae penodi rhywun i rôl ddim ond am fod ganddynt nodwedd a ddiogelir yn wahaniaethu cadarnhaol. Yr unig amser y dylid ystyried nodwedd a diogelir parthed ymgeisydd yw mewn sefyllfa o dorri’r ddadl, lle nad oes unrhyw ffordd arall o wahanu dau ymgeisydd.

### Deddfwriaeth newydd

Rhai o’r diweddariadau Adnoddau Dynol allweddol y mae angen i chi eu hystyried eleni:

• **Estyniad i amddiffyniadau rhag diswyddo i atal gwahaniaethu yn achos beichiogrwydd/mamolaeth** Mae myth poblogaidd sy’n dweud na allwch ddiswyddo’r sawl sydd ar absenoldeb mamolaeth. Nid yw hynny’n gywir. Er na allwch eu diswyddo oherwydd eu bod ar absenoldeb mamolaeth, rhaid i chi drin yr holl gyflogeion yn deg ac yn gyfartal, ac mae hynny’n golygu gosod y rhai sydd ar absenoldeb mamolaeth ynghyd â’u cydweithwyr yn yr oll i’w hystyried. Os, fodd bynnag, y cânt eu dewis i’w diswyddo tra byddant ar absenoldeb mamolaeth yna mae gan y fenyw fwy o hawl i gael ei rhoi mewn rôl wag y mae ganddynt y sgiliau ar ei chyfer heb gyfweliad cystadleuol. Mae’r llywodraeth yn bwriadu ymestyn yr amddiffyniad hwnnw am chwe mis wedi i’r fenyw ddychwelyd o’i habsenoldeb mamolaeth.

• **Cyflwyno hawl i absenoldeb un wythnos i ofalwyr na chânt eu talu** Ym Mawrth 2020, rhyddhaodd y llywodraeth bapur ymgynghori a gofyn am ymatebion erbyn Awst 3 2020. Yn y papur yma fe wnaethant argymell caniatáu i ofalwyr nad oeddent yn derbyn talu i gael un wythnos o absenoldeb heb dâl ychwanegol mewn blwyddyn. Nid yw’r ymateb i’r ymgynghoriad hwn wedi ei gyhoeddi eto.

• **Caniatáu rhieni i gymryd absenoldeb estynedig ar gyfer gofal i’r newydd-anedig** Yn dilyn ymgynghoriad yn 2019, cyhoeddodd y llywodraeth ymateb ym Mawrth 2020 yn cadarnhau bod rhieni babanod sy’n cael eu derbyn i’r ysbyty fel rhai newydd-anedig (28 diwrnod neu lai) yn gymwys i dderbyn absenoldeb a thâl newydd-anedig os yw’r arhosiad yn para am gyfnod parhaus o saith diwrnod neu fwy. Bydd ganddynt yr hawl i hyn o ddydd cyntaf eu cyflogaeth a hyd at uchafswm o 12 wythnos. Nid oes manylion pellach wedi eu cyhoeddi, yn cynnwys y lefel o dâl newydd-anedig.

• **Gwneud gweithio hyblyg yn ddiofyn oni bai fod gan gyflogwyr reswm da dros beidio** Ni lwyddodd y cynnig hwn, a gyflwynwyd yn 2019 o dan y bil gweithio hyblyg gan yr AS Ceidwadol, Helen Whately, i gwblhau ei daith drwy’r senedd erbyn diwedd y sesiwn, sy’n golygu na fydd yn symud yn ei flaen. Ond, er i’r Frenhines gyhoeddi y caiff deddfwriaeth ei rhoi ar waith i roi hyn ar waith, mae’n debygol bod digwyddiadau’r misoedd diwethaf hyn wedi ei goddiweddyd. Mae pob cyflogwr wedi gorfod edrych i weld a all eu cyflogeion weithio o gartref, a rhai’n gorfod jyglo gofal plant yn ogystal â gwneud eu swyddi, gan roi diwedd sicr ar nifer o chwedleuon a syniadau rhagdybiedig.

• Daeth **Corff gorfodi unigol ar gyfer hawliau cyflogaeth** i ben yn Hydref 2019 a hyd yma does dim manylion pellach wedi’u cyhoeddi, ond y bwriad yw bod ag un corff yn gorfodi’r isafswm cyflog, dyfarniadau tribiwnlysoedd a chynllun cosbi tribiwnlysoedd, rheoleiddio tâl salwch statudol a chyhoedduso hawliau cyflogaeth.

• **Pasio deddwriaeth er mwyn gwneud yn sicr fod tipiau a adewir i weithwyr yn eu cyrraedd hwy’n llawn** Byddai hyn, y cyfeiriwyd yn llawn ato yn araith y Frenhines, yn rhoi ar waith y Bil Cyflogaeth (Dyraniad Tipiau).

• **Hawl newydd i bob gweithir i ofyn am gontract lle gellir rhagweld mwy** Nid oes unrhyw fanylion wedi eu cyhoeddi eto, ond y mai hyn er mwyn tynnu sylw at ddiffyg cydbwysedd rhagdybiedig contractau dim-oriau.

2021 felly’n edrych yn flwyddyn brysur arall i’r adran Adnoddau Dynol!

### Amserlen digwyddiadau


| Datblygiad | Dyddiad rhoi ar waith |
|---|---|
| Codiadau yn yr isafswm cyflog cenedlaethol yn dod i rym | 1 Ebrill 2021 |
| Cynnydd yn y tâl mamolaeth statudol a chynnydd mewn cyfraddau tâl statudol eraill perthynol i deuluoedd | 4 Ebrill 2021 |
| Ymestyn y diwygiad i’r ddeddfwriaeth ar weithredwyr rhyngol i’r sector preifat (IR35) | 6 Ebrill 2021 |
| Cynnydd yng nghyfradd y pensiwn y wladwriaeth | 6 Ebrill 2021 |
| Codiadau yn y tâl salwch statudol | 6 Ebrill 2021 |
| CThEM yn cael y gallu i adennill treth gan bartïon ar wahân i drefniadau gweithio oddi-ar-y-gyflogres | 6 Ebrill 2021 |
| Cyflwyno absenoldeb ar gyfer gwirfoddol mewn argyfwng | I’w gadarnhau |
| Diwygiadau technegol i’r gyfraith cwmnïau yn dilyn ymdawiad y DU o’r UE yn dod i rym | I’w gadarnhau |
| Deddfwriaeth newydd i sicrhau bod tips ac arian rhodd yn cyrraedd y staff | I’w gadarnhau |
| Cynyddu hyd yr amser sy’n ofynnol ar gyfer torri parhad cyflogaeth | I’w gadarnhau |
| Cyflwyno gwasanaeth dangosfwrdd pensiynau newydd | I’w gadarnhau |
| Trefniadau gwirio newydd yn digwydd | I’w gadarnhau |
| Hawl newydd i weithwyr wneud cais am gontract mwy sefydlog | I’w gadarnhau |
| Chwythwyr Chwiban yn cael eu diogelu wrth wneud ceisiadau am swyddi yn y sector gofal cymdeithasol | I’w gadarnhau |
| Lwfans treth incwm personol yn cael ei gysylltu â’r isafswm cyflog cenedlaethol | I’w gadarnhau |

### Cyfraddau’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol

| | Y Gyfradd o 1 Ebrill 2020 | Y Gyfradd o 1 Ebrill 2021 | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| **25 mlwydd oed a throsodd (Y Cyflog Byw Cenedlaethol)** | £8.72 | £8.91 | 2.2% |
| **Cyfradd 21-22 blwydd oed** | £8.20 | £8.36 | 2.0% |
| **Cyfradd 18-20 mlwydd oed** | £6.45 | £6.56 | 1.7% |
| **Cyfradd 16-17 blwydd oed** | £4.55 | £4.62 | 1.5% |
| **Cyfradd Prentisiaid** | £4.15 | £4.30 | 3.6% |

(I’w gadarnhau ar adeg ysgrifennu.) Mae cyfraddau’r tâl statudol mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, galar rhieni a thâl rhieni ar y cyd i gynyddu o £151.20 i £151.97 yr wythnos. Yn ogystal, mae cyfradd y tâl salwch statudol (SSP) hefyd i gynyddu o £95.85 i £96.35 yr wythnos.

# Gwreiddiau Cryf, Sylfeini Cadarn



Pan fyddwch chi'n edrych allan o'ch ffenest neu'n mynd am dro ynghanol byd natur, beth ydych chi'n ei weld? Ar yr adeg hon o'r flwyddyn mae natur yn deffro ac rydym yn gweld blagur newydd yn dechrau ymddangos. Er mwyn i'r blagur hynny ffynnu mae angen i'r planhigyn fod â gwreiddiau cryf ac iach; sylfeini cryf.

Gellir dweud yr un peth am y Sector Gofal Plant Allysgol. Rydym yn gwybod nad yw'r 12 mis olaf hyn wedi bod yn hawdd, ond mae yn awr yn gyfle da i wneud yn sicr bod eich gwreiddiau'n gryf fel y gallwch ddechrau tyfu a ffynnu.

Gwreiddiau unrhyw Glwb Gofal Plant Allysgol yw ei strwythur cyfreithiol, boed fel Darparydd Preifat neu Bwyllgor a Reolir yn Wirfoddol.

Yn union fel y mae gwreiddiau planhigyn ynghudd o dan y ddaear, mae'r hyn y mae rheolwyr yn ei weld o'r golwg gan fwyaf yn y cefndir, ond mae'n hynod o bwysig.

Yn rhan o'r strwythur rheoli mae pethau y mae angen i chi eu gwirio i wneud yn sicr eich bod mor gryf ac iach â phosibl:

1. A oes gan y rheolwyr gyfrifoldeb cyfyngedig? Os ydych yn fasnachwr unigol neu'n bartneriaeth, a ydych wedi ystyried manteision bod yn Gwmni Cyfyngedig, a sut y byddai hynny'n cyfyngu ar eich cyfrifoldeb dros asedau'r busnes?
Os ydych yn rhan o Bwyllgor a Reolir yn Wirfoddol, a oes gennych ddigon o Aelodau Pwyllgor? A ydych wedi ystyried manteision dod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE [CIO]) a sut y byddai hyn yn cyfyngu ar eich cyfrifoldebau?

2. A ydych adolygu'ch llif arian yn rheolaidd? Mae adolygu eich llif arian yn fwy na dim ond gwirio'r balans yn y banc. Y mae ynglŷn â gwybod faint o blant sydd gennych wedi bwcio lleoedd gyda chi, ac felly eich incwm disgwyliedig a'ch gwariant disgwyliedig. Gallai gwneud hyn dynnu'ch sylw at y misoedd at y misoedd pan fyddwch yn gwybod y byddwch ar eich colled, a gallwch ddechrau cynllunio i'w leihau. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar gael i'ch cefnogi er mwyn gwneud yn sicr bod gennych y gwreiddiau cryf a fyddai'n galluogi eich Gofal Plant Allysgol i ffynnu.

I gael cefnogaeth bellach anfonwch e-bost i'ch Swyddfa Ranbarthol
Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org

# Mynd yn Ddi-bapur

**Polisïau, ffurflenni cofrestri, ffurflenni meddyginiaeth… mae'r rhestr yn ddi-ben-draw pan ystyriwch yr holl waith papur sydd ei angen i gadw Lleoliad i redeg yn effeithiol. Ond a ydych erioed wedi ystyried effaith hyn oll ar yr amgylchedd ac ar sefyllfa ariannol eich busnes?**

Mae'r broses o gynhyrchu papur yn cyfrannu at lygredd aer, dwr a thir, ac mae gwastraff papur yn cyfateb â thua 25% o gynnwys safleoedd tirlenwi. Mae'r safleoedd tirlenwi cynyddol fawr hyn yn ychwanegu ymhellach at y llygru hwnnw. Yna mae'r effeithiau a gaiff cynhyrchu papur ar y coedwigoedd glaw, ac ardaloedd eang iawn yn cael eu dinistrio bob blwyddyn i gael hyd i'r mwydion sydd eu hangen i greu cynnyrch papur.

Wrth fynd tua'r gwanwyn a blwyddyn ariannol newydd, efallai mai dyma'r amser i edrych ar rywbeth newydd: a oes newidiadau y gallech eu gwneud fel Lleoliad a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd? Yn achos technolegau newydd, nid yw symud at systemau di-bapur erioed wedi bod yn symlach, ac mae'r manteision yn enfawr, nid yn unig o ran yr amgylchedd, ond gall hefyd arbed arian i chi o ran costau papur ac argraffu, heb sôn am y gwagle y gallech ei arbed o ran storio materol. Er ei bod yn orfodol arnoch i barhau i gadw pob cofnod mewn ffordd lle gellir eu cyrchu'n hawdd, yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gallai fod yn werth edrych i weld a oes ffyrdd mwy amgylcheddol gyfeillgar o wneud hynny.

Diffinnir storio ar gwmwl fel mynediad at adnoddau cyfrifiadura, ar alw, drwy rwydwaith. Mae storio cofnodion yn ddigidol mewn ffordd ddiogel yn rhyddhau gwagle storio ar gyfer gweithgareddau'r Clwb o ddydd i ddydd, yn ei gwneud yn haws dod o hyd i wybodaeth benodol, defnyddio nodweddion chwilio, yn cyfyngu ar fynediad at ddata ac yn helpu i sicrhau cyfrinachedd a diogelwch data, yn ogystal â lleihau ein hôl-troed carbon.

Mae'r mwyafrif o wasanaethau cwmwl yn rhad ac am ddim hyd at derfyn penodol, eto mae'r terfynau hyn yn eich caniatáu i storio miloedd o ffeiliau. Mae'r holl ffeiliau wedi eu hamgryptio, sy'n golygu eu bod wedi eu diogelu rhag prosesu diawdurdod ac anghyfreithlon. Bydd angen i chi roi cyfrineiriau yn eu lle i gyrchu'ch ffeiliau a dim ond cyflogeion y bydd arnynt angen eu cyrchu a gaiff y rhain. Gellir newid y cyfrineiriau hyn yn rheolaidd i bwrpasau diogelwch ychwanegol, ac os yw'r aelodau staff y n gadael y gyfundrefn. Mae'n bwysig eich bod yn ychwanegu'r defnydd o storio ar gwmwl at eich Polisi Diogelu Data a gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs eich cynorthwyo gyda hyn.

Gall rhieni gwblhau ffurflenni cofrestru drwy ddefnyddio dolen y gallant yna ei dychwelyd atoch drwy e-bost, yma gallwch uwchlwytho'r ddogfen i'ch storfa gwmwl a dileu'r e-bost. Gall eich holl bolisïau fod ar-lein heb yr angen i argraffu copïau ac yna gellir e-bostio'r polisïau hyn i rieni os bydd angen hynny. Y mae'n orfodol fodd bynnag eich bod yn ystyried sut y bydd staff yn cyrchu gwybodaeth hanfodol e.e. ffurflenni meddyginiaeth a gwybodaeth gyswllt, yn ystod sesiynau a phan fyddant allan ar dripiau.

Os oes gennych ddiddordeb mewn newid i storio ar gwmwl, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant am arweiniad a chefnogaeth.
Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org





# Ailddefnyddio

## - arbed y planed ac arbed arian!

Wrth symud ymlaen i'r Flwyddyn Newydd, efallai eich bod yn edrych tua'r dyfodol ac yn meddwl pa newidiadau cadarnhaol y gall eich Lleoliad wneud i'r amgylchedd. Mae dal i gynnig gofal yn ystod Covid-19 wedi peri bod angen i ddarpariaethau Gofal Plant feddwl am sut y gallant roi'r Mesurau Diogelu ar waith a sut i wneud hyn gyda'r ymyriad lleiaf i rediad y ddarpariaeth. Un maes y mae sawl Lleoliad wedi ei newid yw eu trefn byrbryd, a rhai'n dewis defnyddio platiau a chwpanau y gellir eu taflu.

Mae lleoliadau wedi bod o dan bwysau mawr i gael pethau'n iawn, ddim ond i fod yn sicr eu bod wedi rhoi sylw i bopeth yn yr Arweiniad Mesurau Diogelu ond hefyd am eu bod nhw'n bersonol am ddiogelu eu staff a'r plant yn eu gofal. Mae'r Mesurau Diogelu'n datgan bod angen i Leoliadau "Atal rhannu offer bwyd a diod", wrth geisio sicrhau eu bod yn wyliadwrus i fod yn Covid-ddiogel ac mewn ymdrech i gymryd un dasg oddi wrthynt wedi penderfynu defnyddio llestru bwrdd tafladwy. Ond gall y cynnydd yn y defnydd hwn effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd, a chydag effaith Covid-19 yn para llawer hwy nad oedd unrhyw un wedi'i ragweld, mae'n bosibl y byddwch yn dechrau adolygu pethau â'ch golwg ar y tymor hir.

Ni ellir ailgylchu platiau papur oherwydd y saim o'r bwydydd, felly safleoedd tirlenwi yw'r unig opsiwn. Gall platiau papur gymryd hyd at 5 mlynedd i ddadelfennu a chymryd llawer o le mewn safleoedd tirlenwi. Mae safleoedd tirlenwi'n cynnwys lefelau uchel o nwy methan a CO2, sy'n cael ei gynhyrchu gan y sbwriel sy'n pydru yn y ddaear. Mae'r rhain yn nwyon tŷ gwydr, sy'n cyfrannu'n fawr at y broses o gynhesu byd-eang. Dros amser, bydd y safle tirlenwi'n allyrru nwyon peryglus, gan arwain at orfod rheoli'r ardal am byth i wneud yn sicr nad oes unrhyw lygru gormodol.

Mae newid i lestri bwrdd tafladwy hefyd yn rhoi'r pwysau ychwanegol o gost i'r Lleoliad. Hyd yn oed â lleihad yn y niferoedd sy'n mynychu, gall y gost fod yn uchel. Ar sail 8 plentyn y noson ar gyfartaledd, a chan edrych at yr opsiynau rhataf i'w prynu, gall llestri bwrdd gostio dros £250 y flwyddyn i Leoliad. Mae nifer o Leoliadau'n rhedeg ar golled ar hyn o bryd, ac mae hwn yn gost y gellir ei hosgoi.

Y prif beth i'w ystyried wrth ddarparu byrbrydau yw bod yr holl fesurau rheoli haint o safon uchel a bod y cofnodi priodol o'r holl lanhau wedi ei gwblhau. Mae lleoliadau wedi atal plant rhag mynd ati i ddefnyddio eu byrbryd eu hunain, a oedd yn cael ei annog o'r blaen, ond y mae, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol lleihau cysylltiadau a lledaeniad bacteria. Bydd defnyddio llestri bwrdd tafladwy yn lleihau'r angen i olchi llestri ac yn sicrhau bod y platiau a'r cwpanau wedi'u diheintio; ond fel y trafodwyd, nid yw hyn yn dda i'r amgylchedd nac yn effeithiol yn economaidd.

Hefyd does dim angen gwneud hyn, mae ffyrdd o sicrhau glanhau effeithiol a fydd yn hefyd yn rhoi'r rheoli haint yn briodol. Does dim angen i'r rhain fynd â gormod o amser ychwaith.

Nid yw golchi'r llestri mewn sebon yn lladd yr holl facteria niweidiol, ond mae'n effeithiol er mwyn sicrhau cael gwared â'r holl saim; os caiff ei adael, gall y deunydd organig fod yn fan bridio i facteria. Mae dau opsiwn i ddylyn golchi llestri bwrdd. Naill ai socio'r eitemau mewn dŵr berwedig neu mewn 'Milton solution'.

'Milton solution' yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o reoli eich haint heb fynd â gormod o amser. Unwaith y byddwch wedi golchi'r eitemau, rhowch nhw mewn 'Milton solution' a'u gadael am 15 munud. Ar ddiwedd yr amser yma rhowch ddŵr oer drostynt ac yna'u gadael i sychu. Argymhellir sychu ag aer gan y gall llieiniau sychu fod yn hafan i facteria di-ri.

Mae Lleoliadau wedi gwneud gwaith anhygoel yn addasu eu hamgylcheddau, eu trefn a'u hadnoddau i gyd-fynd â phellhau cymdeithasol wrth sicrhau nad effeithir ar chwarae'r plant. Er bod newid i lestri bwrdd tafladwy wedi bod yn effeithiol yn sicrhau y gellir dal i roi byrbryd i'r plant mewn amgylchedd dan reolaeth, efallai eich bod yn teimlo ei bod yn amser ystyried yr agweddau ymarferol ar ddefnyddio llestri bwrdd tafladwy yn y tymor hir. Gall defnyddio'r tips yma ar lanhau eich cynorthwyo i newid yn ôl yn effeithiol i ddefnyddio'ch llestri bwrdd arferol, gan wybod y gellir gwneud hyn yn ddiogel a'i reoli o fewn amserau'ch sesiynau.

# Asesiad o Risg v Budd



## Cyfle Pwll Tân

### Risgiau

Llosgiadau
Dillad yn mynd ar dân
Bywyd Gwyllt
Yr Amgylchedd
Anadlu Mwg
Risg o farw yn y pen draw

### Buddion

Dysgu Sgil Newydd
Gwybod am Ddiogelwch Tân
Gwybod sut i adeiladu tân
Datblygiad Cymdeithasol
Datblygiad Corfforol
Datblygiad Emosiynol
Sut i ymdopi â Risgiau Real
Hyder
Gwydnwch
Sgiliau Bywyd
Synnwyr o Gyflawniad
Asesu eich Risg eich Hun

### Mesurau i Leihau Risgiau

*Esboniwch bob tro i'r plant y ffordd hawsaf o wneud pethau, a byddwch yn gyfrifol
*Cadwch fwcedaid o ddŵr gerllaw
*Cadwch yn glir o adeiladau a bywyd gwyllt
*Defnyddiwch linell Raff neu Sialc y bydd yn rhaid i'r plant sefyll y tu ôl iddi
* Os nad ydych yn gyfforddus o gwmpas tân – gadewch i rywun arall sy'n gyfforddus arwain y cyfle chwarae, fel arall byddwch yn trosglwyddo'ch ofnau i'r plant!

# Llamu mlaen yn 2021

**Enw:** Jane Waters

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Yr her fwyaf yr wyf i wedi ei phrofi yw natur unigol ac eisteddog y cyfnodau clo. Rwyf yn y bôn yn berson awyr-agored, ac roedd bod heb y rhyddid i ymarfer a theithio yn ergyd drom. Dwy'n meddwl i natur sydyn y cyfnod clo cyntaf fod yn drawmatig a ches fy ngwir ansefydlogi. Roeddwn yn teimlo'n ofidus yn aml ynghylch anghofio tasgau.

Yn rhyfedd iawn, er bod rhywun arall yn y tŷ, rwyf wedi teimlo'n ynysig iawn, ac mae'r dyddiau fel petaen nhw'n cynnwys dim ond gwaith a charchariad. Roeddwn yn arfer cwyno am y traffig ar y ffordd i'r gwaith byth a hefyd, ond nawr rwy'n sylweddoli i'r amser hwnnw fod yn amser 'fi', yn help i osod y ffin rhwng gwaith a chartref.

Pan ddaeth yn amlwg fod gweithio o gartref yn mynd i fod yn fwy parhaol gwnes newidiadau i addasu ar gyfer hyn ac er mwyn fy lles fy hun. Es i nôl fy mwrdd wal o'r gwaith, trefnu ar gyfer argraffydd/sganiwr ac ailwampio fy stafell weithio; roedd teimlo'n fwy trefnus yn gwneud i mi deimlo fod gen i fwy o reolaeth dros bethau.

Gwnes yn siŵr fy mod yn mynd allan yn gorfforol am dro, reid ar y beic, hyd yn oed siopa am fwyd er mwyn gael toriadau yn y diwrnod a chael peth amser ar gyfer fy hun, i feddwl neu ddim meddwl, a gadel yr ystafell am fwyd a choffi a chael sgwrs. Rwyf wedi cael darllen yn gysur gwirioneddol eto, mae ein grwpiau Whatsapp teuluol wedi bod yn hwb gwirioneddol. Dwi ddim erioed wedi gwir ystyried materion Iechyd Meddyliol o'r blaen, ond gallaf yn awr ddeall pa mor hawdd y byddai i ddod yn eithaf tost os na thelir sylw i hyn.

Yn olaf, ond nid leiaf, mae cefnogaeth y gyfundrefn wedi bod heb ei ail ac rwyf wedi teimlo cefnogaeth gan gydweithwyr a rheolwyr sydd wedi caniatáu hyblygrwydd i gyd-fynd â'm hanghenion.

**Pe gallech fod wedi newid unrhyw beth, beth fyddai a pham?** Byddai'n dda gen i pe bawn i wedi sylweddoli ynghynt fod y cloi mawr wedi erydu fy llesiant, sylweddoli fy mod yn cael diwrnodau lle'r oeddwn dan straen, ac yna gymryd camau ynghynt i'w wrthsefyll.

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Wedi fy nghyffroi yn meddwl efallai y cawn fynd yn ôl i'r swyddfa, gweld fy holl gydweithiwyr a gweld beth sydd yn nrôr danteithion Bev. Dim ond gallu teithio; ni fydda i fyth gartref ar benwythnosau eto, treulio oriau ar lan y môr. Dim ond cael barbeciw arferol gyda phobl go iawn, rhannu'r newyddion diweddaraf â'm teulu a'u cwtsho i gyd, yn enwedig fy chwaer yn UDA.

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** Darganfod yr holl lwybrau troed cyhoeddus yn fy ardal a'u cerdded, darllen mwy o lyfrau, cwblhau hanes fy nheulu a helpu pobl eraill gyda'u hanes hwy, cadw dyddiadur ac ymarfer fy nghorff a'm meddwl. Bod mwy o ddifrif ynglŷn â'm llesiant.

**Enw:** Shelley Jenkins

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi profi newidiadau enfawr i'm bywyd personol yn ogystal â'm bywyd gwaith. Rwyf wedi ei chael yn her wirioneddol jyglo'r holl beli, a cheisio cadw pawb yn hapus; weithiau mae fy mywyd personol wedi dioddef, ac weithiau mae fy mherthnasoedd yn y gwaith wedi dioddef.

Nid wyf bob tro wedi ymdrin â'r heriau'n dda, ond unwaith yr ydych allan o sefyllfa ac yn gallu adlewyrchu ar yr hyn a ddigwyddodd, a pham, y mae'n aml yn haws ystyried yn hytrach sut y byddech wedi ymdrin â'r un heriau mewn ffordd wahanol.

I mi, y mae'r 12 mis diwethaf wedi bod ynglŷn â dysgu sut i ymdopi'n wahanol yn ystod adegau heriol, derbyn na allaf blesio pawb a gwneud pob peth, a deall bod hynny'n iawn!

**Pe gallech fod newid unrhyw beth, beth fyddai wedi bod a pham?** Pe gallwn fod wedi newid unrhyw beth, y ffordd yr wyf wedi ymateb i sefyllfaoedd arbennig fyddai hynny, oherwydd bod hynny wedi cael effaith bellgyrhaeddol arnaf i. Ar y llaw arall, dim ond wrth adlewyrchu ar hyn yr wyf wedi gallu tyfu a newid fy ffordd o feddwl ynghylch y dyfodol.

Byddai'n dda gen i hefyd petawn i wedi cymryd mwy o gyfleoedd i fynd allan yn yr awyr iach, gallai hynny fod wedi fy helpu i glirio fy mhen!

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at gyfleoedd newydd yn y gwaith, y newidiadau yr ydym yn eu gwneud i'r ffordd yr ydym yn gweithio, a fydd efallai ddim yn hawdd, ond yn ein helpu oll i symleiddio prosesau a datblygu ein sgiliau (TG yn arbennig).

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen yn eiddgar at y posibilrwydd o allu dechrau mynd o gwmpas yn fwy unwaith y bydd y bygythiad o Covid-19 yn lleihau wrth i bobl gael eu brechu. Mae gen i gynlluniau i ymweld ag Efrog Newydd eleni, ac er bod hynny'n annhebygol o ddigwydd ar yr adeg yr oeddem wedi gobeithio cael gwneud, rwy'n hyderus y bydd yn hapus ac y bydd modd i'm teulu oll gyflawni un o'n breuddwydion 'rhestr fwced'.

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** Eleni hoffwn wneud mwy o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Yn y gorffennol rwyf wedi tueddu i hyfforddi yn ôl yr hyn sydd ei angen arnaf i wneud fy rôl. Eleni hoffwn gyflawni rhywbeth yr wyf wedi eisiau ei wneud erioed, cymhwyster mewn Adnoddau Dynol (AD) (Mae AD yn rhan o'm cylch gorchwyl, dwi ddim yn edrych am swydd arall!)

**Beth hoffech chi ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol (h.y. mewn 12 mis)?** Da iawn ti, fe lwyddaist!

***Sut fyddech chi'n ateb y cwestiynau hyn?*** *Gall cymryd amser i fyfyrio ar yr hyn sydd wedi bod a chymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i'n nodau yn y dyfodol fod yn ymarfer cathartig a gwerth chweil iawn - rhowch gynnig arni ac, os ydych yn hoffi, rhannwch eich profiadau / sylweddoliadau / gobeithion ar gyfer y dyfodol gyda ni (info@clybiauplantcymru.org). Pwy a ŵyr, efallai y byddwch yn dod o hyd breuddwydion ysbridoledig yn ein newyddlen nesaf!*



**Enw:** Naomi Evans

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Yr her fwyaf i mi o bosibl fu colli rheolaeth yn llwyr, gan fod cymaint wedi bod yn gyfan gwbl y tu allan o'n rheolaeth ers mis Mawrth diwethaf: y cyfnod clo cychwynnol, cau ysgolion, ffrindiau'n colli teulu/anwyliaid, methu â gweld y bobl dwi'n eu trysori, gwyliau, penblwyddi a chynlluniau wedi'u canslo, rhwystredigaeth ynghylch pobl 'ddim yn dilyn y rheolau'. Rwyf wedi gorfod symud fy ffocws i'r hyn y gallwn ei reol o ran cefnogi iechyd a llesiant fy mhlant, gan wneud y gorau o gysylltu â ffrindiau/teulu dros Zoom, canolbwyntio ar y cadarnhaol gymaint â phosibl a chreu munudau i'w trysori hyd yn oed pan fo'r cyfan yn eithraf tebyg i Grounhog Day.

**Pe gallech fod wedi newid unrhyw beth, beth fyddai a pham?** Ni fyddwn wedi newid llawer (oni bai, wrth gwrs, fod hyn yn cynnwys y gallu i fynd yn ôl mewn amser ac atal y pandemig!), ond byddwn wedi treulio llai o amser yn teimlo'n ofidus am bethau y tu hwnt i'm rheolaeth. Hefyd byddwn wedi peidio â mynd am gynnwys yr oergell lawer cynt, gan fod y pwysi'n anodd eu symud!!

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Rwy'n edrych ymlaen at yr adeg y bydd y tywydd yn cynhesu, ac at allu gweld pobl eto - hyd yn oed dim ond i fynd am dro ac amser yn yr awyr agored. Dwi'n credu, bod Covid, yn achos llawer o bobl, a mi yn eu mysg, wedi rhoi llawer o bethau yn eu lle cywir. Rwyf wedi sylweddoli pa mor bwysig i mi yw amser gyda theulu a ffrindiau, a dwi am flasu pob munud sydd gen i gyda'r bobl yr wy'n eu caru. Rwy'n edrych ymlaen at dripiau i'r traeth gyda ffrindiau a thripiau i'r parc. Ni allaf aros tan y gall fy mhlant gael eu ffrindiau drosodd i chwarae - rhywbeth mor syml yr oeddem yn gallu ei gymryd yn ganiataol!

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** Dwi newydd ddechrau Cymhwyster Lefel 7 mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth, ac yn edrych ymlaen (er gydag ychydig o nerfusrwydd!) at bennu rhywfaint o amser ar gyfer fy natblygiad proffesiynol. Rwyf am wneud yn siŵr fy mod yn cymryd rhywfaint o amser ar fy nghyfer fy hun - boed drwy ddarllen llyfr, ysgrifennu traethawd neu fynd am drol Rwyf am fod yn fwy caredig tuag ataf i fy hun, a pheidio â chystwyo fy hun am beidio â gorffen rhywbeth. Dwi'n bwriadu cael mwy o anturiaethau gyda'm mab a'm merch (boed y tu mewn neu'r tu allan i'r tŷ) a, gobeithio, gyda ffrindiau hefyd. Roeddwn yn bwriadu mynd am wyliau hefyd yn hwyrach yr haf hwn (wedi'i ad-drefnu o'r llynedd) ond dwi ddim yn siŵr eto a fydd hynny'n digwydd!

**Beth hoffech chi ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol (h.y. mewn 12 mis)?** Gobeithio y gwnest ti golli pwysau'r Pandemig!! Ha, ond o ddifri', rwy'n gobeithio y byddaf mewn 12 mis yn dal i flaenoriaethu'r pethau sy'n cyfri', ac na fyddwn ni oll yn cael ein hail-amsugno i mewn i anhrefn bywyd 'normal' - gobeithio y gallaf gymryd rhywfaint o'r hyn a ddysgais y flwyddyn ddiwethaf hon gyda mi, a chofio beth sy'n wirioneddol o bwys.

**Your name:** Nenie Anetekhai

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Ceisio dod o hyd i gydbwysedd mewn corwynt o weithgareddau, felly un diwrnod fe eisteddais i lawr a gwneud map meddwl o bopeth; yna ei roi ar bapur, a cheisio fy ngorau i lynu wrtho drwy gyfrwng cynlluniau lu wrth gefn a rheoli risgiau.

Hefyd, cadw cyfrif o aelodau o'r teulu mewn gwahanol rannau o fyd lle mae Covid yn fythol bresennol ar sail wythnosol/pythefnosol. Fe wnaethom greu stafell sgwrsio grŵp WhatsApp a rhoi amser yn awr ac yn y man am alwad cynhadledd fideo i ddal i fyny ar ddigwyddiadau, gan adael negeseuon cyn yr alwad fideo.

**Pe gallech fod wedi newid unrhyw beth, beth fyddai a pham?** Dim. Ni fyddwn wedi newid unrhyw beth oherwydd er i 2020 yn ymddangos yn flwyddyn anodd, yn ei sgil fe ddaeth a.) tyfiant drwy ymestyn a, b) sawl posibiliad drwy feddwl a thechnoleg arloesol.

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Y Don Newydd o fetamorffosis technolegol

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?**

- Yfed mwy o ddŵr a gwneud mwy o ymarfer corff
- Stopio dweud DWI DDIM YN GWYBOD
- Mynd ati i ddiffodd y swîts pan fo angen, myfyrio mwy, bod yn ymwybodol o'ch meddyliau
- Teithio adref a mwy yn amodol ar Covid
- I wneud hyn lluniais fwrdd gweledigaeth a nodion bach gludiog i atgoffa fy hun.

**Beth hoffech chi ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol (h.y. mewn 12 mis)?** Mae'n iawn i ddweud wrthych chi eich hun, "Mi wna i weithio hyn allan" yn lle DWI DDIM YN GWYBOD ".

Weithiau mae'n iawn dweud wrthych chi eich hun, "Pan ddof i'r bont honno, mi wna i ei weithio allan cyn i'r bont ddod ataf i" a gofidio'n ddiangen. Am nawr, byw yn y Presennol a thaclo pob diwrnod fel y daw.

**Enw:** Becci Jones

**Wrth adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf, beth oedd yr her fwyaf i chi, a sut wnaethoch ei goresgyn?** Yr her fwyaf a wynebais eleni oedd unigrwydd. Wnes i ddim sylweddoli o'r blaen pa mor anghenus yr ydw i, a chymaint yn fwy diogel dwi'n teimlo pan fydd gen i gwmni. Rwyf wedi gorfod addasu o fod ynghanol pobl drwy'r dydd yn y gwaith, a chyda ffrindiau a theulu ar benwythnosau a nosweithiau. Cyn eleni ychydig iawn o amser y byddwn i'n treulio ar fy mhen fy hun, ac roedd wastad gen i lond tŷ o bobl. Roedd ychydig fisoedd cyntaf y clo mawr yn anodd, gan y byddwn yn treulio 4 allan o 7 diwrnod o'r wythnos bron yn gyfan gwbl ar fy mhen fy hun. Roeddwn yn teimlo'n ansicr, gofidus ac ofnus, ac yn y diwedd roeddwn i'n treulio fy holl amser yn gorfwyta a gwylio gormod o gyfresi teledu, gan roi cryn dipyn o bwysau ymlaen a mynd yn eitha' anhwylus. Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf penderfynais newid pethau, ac rwyf wedi dechrau ar ddeiet iach, gosod heriau ymarfer corff i mi fy hun, ac wedi gwneud yn siŵr fy mod yn cysylltu â ffrindiau/teulu dros y ffôn bob dydd ac yn eu galw ar zoom ar y penwythnosau. Rwyf wedi dechrau darllen mwy yn lle edrych ar fy ffôn. Mae cymryd y camau hyn a gorfodi fy hun i lynu atyn nhw hyd yn oed pan fydda i heb yr awydd lleiaf i wneud, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'm hwyl a'm hiechyd. Nawr dwi ddim yn teimlo mod i ddim ond yn treulio'r oriau'n aros i'm mhartner ddod adref o'r gwaith; dwi'n defnyddio fy amser ar fy mhen fy hun yn fwy effeithlon yn coginio, ymarfer corff ac yn ffonio, yn hytrach nag yn tecstio, ffrindiau.

**Pe gallech fod wedi newid unrhyw beth, beth fyddai a pham?** Byddai'n dda gen i taswn i wedi cymryd yr agwedd yma ar ddechrau'r cyfnod clo a pheidio â gadael i'm hun fynd mor isel. Byddai'n dda gen i petawn i wedi cadw draw o'r oergell am y 6 mis cyntaf!!

**Wrth edrych ymlaen, pa gyfleoedd sy'n eich cyffroi ar ddechrau 2021?** Dwi'n edrych ymlaen at gael fy mrechu ac at ychydig o normalrwydd, hyd yn oed wrth gyfarfod â ffrindiau mewn parc eto, mynd am dro gyda'n gilydd neu ddim ond gallu ymweld â theulu yn yr ardd yn yr haf.

**Pa gynlluniau sydd gennych am y flwyddyn, a sut ydych chi'n mynd i'w cyflawni?** Rwyf wedi dechrau blog bwyd, a fydd, gobeithio, yn arwain at gymuned o bobl o'r un meddylfryd i ryngweithio ar ein siwrnai bwyd iach ac i allu rhannu cynghorion a ryseitiau. Rwyf hefyd yn mynd i wella ymddygiad fy nau gi; ar hyn o bryd mae pethau'n eithaf cyfyngedig o ran ymhle/pryd y gallwn fynd â nhw am dro, am eu bod yn adweithiol a gwrthgymdeithasol. Pan agorir y cyfnod clo, hoffwn gael hyfforddwr proffesiynol i helpu gyda'r problemau hyn. Bydd hyn yn golygu y gallwn gymryd y cŵn allan yn amlach i barciau, traethau a.y.b. heb ofn a straen, a bydd hyn o les i ni i gyd fel teulu.

**Beth hoffech chi ddweud wrthych eich hun yn y dyfodol (h.y. mewn 12 mis)?** Da iawn ti am gymryd y camau cyntaf a bod â'r hyder i fynd amdani! Mae Becci newydd yn diolch i'r hen Becci am well ansawdd bywyd. xx

# Dechrau systemau ariannol newydd

Yn rhan o'ch dechrau o'r newydd y Gwanwyn yma, beth am ddechrau'r flwyddyn ariannol fel y golygwch barhau, a systemau ariannol cadarn yn eu lle?

Wrth anelu at fod â'u ffocws ar y gymuned a chynnig gwasanaethau eraill sy'n fforddiadwy ac o ansawdd mewn cymunedau lleol, dylid hefyd redeg Darpariaethau Gofal Plant mewn ffordd 'fusnes'. Mae cael systemau rheoli ariannol effeithiol a chynlluniau yn eu lle yn hollbwysig i rediad effeithiol busnes Gofal Plant, ac i sicrhau llwyddiant yn y tymor hir.

## Cynllunio Ariannol

Fel busnes, mae'n bwysig gosod cyllideb yn ei le yn nhermau eitemau gwariant, ac i sicrhau bod hyn yn is na'ch incwm disgwyliedig (drwy ffioedd/grantiau/codi arian) i fod â gwarged bob mis, er mwyn i chi gael digon o adnoddau wrth gefn i'ch cynorthwyo i barhau'n gynaliadwy os oes codiadau a gostyngiadau mewn incwm.

Pan fydd ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant yn cefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol newydd, yn enwedig o ran gwneud cais am ariannu cychwynnol, byddwn yn aml yn rhoi cefnogaeth i ddatblygiad rhagolwg llif arian. Mae rhagolwg llif arian yn erfyn defnyddiol i gynllunio eich cyllideb gychwynnol (ac er mwyn gwneud yn sicr na fydd ffactorau sy'n cael eu penderfynu'n allanol, megis rhent, yn peri i'ch busnes fynd yn anghynaliadwy) ond y mae yn ogystal yn erfyn busnes hanfodol i'w ddefnyddio yn barhaus, gan eich galluogi i adolygu sut sydd eich busnes yn symud yn ei flaen os yw sefyllfa benodol yn parhau'n ddigyfnewid, neu o dan amgylchiadau arbennig.

Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs dempled Rhagolwg Llif arian sydd wedi'i brofi'n effeithiol ac sydd ar gael i'w ddefnyddio gan Glybiau Gofal Plant Allysgol sy'n Aelodau. Rydym hefyd wedi datblygu gweminar newydd sy'n canolbwyntio ar gynllunio ariannol, sy'n ymdrin â sut y gellir defnyddio'r rhagolwg llif arian. Mae copi o'r weminar hon sydd wedi ei recordio ymlaen llaw ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg; cysylltwch â webinar@clybiauplantcymru.org i dderbyn y ddolen gyswllt ato, ac at y templed rhagolwg llif arian.

## Cadw Cyfrifon

Fel busnes dylai Clybiau Gofal Plant Allysgol fod â chyfrifon cyfamserol, cofnodi misol o incwm a gwariant, a chrynodeb blynyddol. Gallech roi'r gwaith o gadw'ch cyfrifon i gwmni arall, ond hyd yn oed os gwneir hyn, y mae'n wirioneddol bwysig bod gan bob perchennog a Rheolwr busnes ddealltwriaeth dda o berfformiad eu busnes Gofal Plant. Os yw'ch busnes yn cynnig sawl gwasanaeth (e.e. Meithrinfa Ddydd sydd hefyd yn cynnig darpariaeth cyn-ysgol, ôl-ysgol a darpariaeth yn ystod y gwyliau i blant oed ysgol) y mae hefyd yn bwysig bod â dealltwriaeth o sut y mae pob elfen o'ch busnes yn perfformio. Er y gallai un gwasanaeth fod yn gwneud gwarged, gallai un arall fod yn methu ateb ei gostau.

**Mewn gwybod mae gallu:** gall deall gwraidd problem fod o gymorth i chi roi cynlluniau yn eu lle i ddatrys unrhyw broblem bosibl e.e. mewn strategaeth farchnata ddiwygiedig.

Mae sawl ffordd o gadw cyfrifon rheoli (e.e. defnyddio ffeil incwm/gwariant papur, taenlenni Excel neu feddalwedd arall) a gallech ddewis opsiwn penodol yn seiliedig ar eich hoff ddewis, profiad, llythrennedd TG neu p'un a ydych yn talu Cyfrifydd i baratoi cyfrifon yn flynyddol.

Beth bynnag fo'ch dull, dylai'ch cyfrifon rheoli fod yn weladwy yn fisol:

**Incwm:** arian yn mynd i mewn i'r cyfrif (e.e. ffioedd/grantiau/codi arian) a allai fod yn gyfyngedig (e.e. ffioedd/grantiau/ces/grants/fundraising) neu'n anghyfyngedig (arian heb eu cadw i bwrpas arbennig ac sydd ar gael i dalu gwariant cyffredinol)

**Gwariant:** Arian sy'n gadael y cyfrif (e.e. rhent, ffioedd proffesiynol, cyflogau staff, bwyd, cyfleustodau, cyfarpar, hyfforddiant, gwiriadau'r GDG)

**Gwarged/Diffyg:** Incwm minws gwariant

**Balans a gariwyd ymlaen:** Balans o'r mis blaenorol minws unrhyw ddiffyg, neu yn ychwanegol at unrhyw warged o'r mis cyfredol.

## Adolygu Ariannol

O'r data yn eich cyfrifon rheoli a'r ffigurau yn eich rhagolwg llif arian a chyllideb wreiddiol, gallwch adolygu pa mor gywir y mae eich incwm a gwariant tybiedig (llif arian) yn cymharu â'ch gwir incwm a gwariant dros gyfnod arbennig (e.e. mis/chwarter/tymor). O'ch 'gwir' ffigurau (cyfrifon) gallwch adolygu'ch rhagolwg llif arian i adlewyrchu ar sut y mae eich gwarged/diffyg a chronfeydd wrth gefn yn debygol o newid yn ôl eich amgylchiadau presennol, ac yna ddefnyddio'r wybodaeth yma i wneud unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol.

Gall hyn olygu ffyrdd o gynyddu incwm (drwy geisiadau grant a strategaethau marchnata i gynyddu nifer y lleoedd a gymerir) a/neu leihau'r gwariant (e.e. drwy leihau'r gwariant ar fwyd/gweithgareddau, negodi newidiadau i'r rhent, neu o bosibl ystyried diswyddo os yw hynny'n angenrheidiol).

Gall eich Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Rhanbarthol eich cynorthwyo i adolygu eich sefyllfa ariannol bresennol drwy ein herfyn Gwiriad Iechyd Busnes.

Rhowch amser o'r neilltu yn rheolaidd i adolygu eich cyfrifon a'r rhagolwg: dylai hon fo yn broses ddeinamig. Ni ddylai rhagolygon llif arian fod yn ymarferiad rhoi tic mewn bocs i'w gwblhau ar adeg benodol, ond yn erfyn yr adlewyrchir arno, ac a gaiff ei adolygu, yn rheoliad er mwyn galluogi cymryd camau yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol pan fydd pethau wedi cyrraedd y pen.

Drwy gynllunio, cofnodi ac adolygu'ch sefyllfa ariannol yn effeithiol rydych yn cynyddu'ch gallu i sylwi ar dueddiadau, ac adweithio mewn modd amserol i broblemau a allai godi (e.e. drwy wneud cais am ariannu).

Os oes arnoch angen cefnogaeth cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant
Swyddfa Caerdydd: 029 20741000.
Swyddfa Cross Hands: 01269 831010.
Swyddfa Bae Colwyn: 01492 536318







Gaeaf 2021

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru

## Nodyn Briffio

Ym mis Ionawr 2020, pasiodd y Senedd Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf"). Y nod cyffredinol yw helpu amddiffyn hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru.

Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020, ac yn dilyn hyn bydd ymgyrch gynhwysfawr o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgyrch amlgyfrwng i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyn i'r Ddeddf ddod i rym ar 21 Mawrth 2022.

Nid yw'r newid yn y gyfraith yn creu trosedd newydd; yn hytrach, mae'n dileu amddiffyniad cyfreithiol 160 mlwydd oed, a oedd yn cyfleu'r neges ei bod yn dderbyniol i blant gael eu cosbi'n gorfforol gan eu rhieni neu'r rheiny sydd ag awdurdod rhiant. Dros y blynyddoedd, mae deddfwriaeth wedi cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellid defnyddio'r amddiffyniad, ac wedi cyfyngu ar y lleoliadau lle gellir cosbi plant yn gorfforol. Mae cosb gorfforol wedi'i gwahardd mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maeth awdurdodau lleol, a lleoliadau gofal plant.

Cosb gorfforol yw pan fo grym corfforol yn cael ei ddefnyddio i gosbi plentyn. Er mai smacio sy'n dod i'r meddwl gan amlaf, gall fod sawl ffurf ar gosb gorfforol, gan gynnwys taro, slapio ac ysgwyd. Mae agweddau tuag at gosbi'n gorfforol wedi newid, ac mae llai o rieni a gwarcheidwaid plant ifanc yng Nghymru yn gefnogol o gosb gorfforol. Mae arfer a ystyriwyd yn iawn 30 mlynedd yn ôl yn llai derbyniol heddiw.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw'r sylfaen ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru ar blant. Mae gwahardd cosb gorfforol i blant yn cyd-fynd ag erthygl 19 CCUHP, sef yr hawl i ddiogelu rhag pob math o drais. Wedi i'r gyfraith ddod i rym, bydd Cymru yn ymuno â thros 55 o wledydd ledled y byd sydd eisoes wedi gwahardd cosb gorfforol tuag at blentyn.

## Pan ddaw'r gyfraith i rym, bydd:

- Yn dileu amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu na all oedolion gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru.
- Yn rhoi i blant yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag cosb gorfforol ag oedolion.
- Yn cael gwared ar fwlch cyfreithiol, gan olygu na fydd yn bosib defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol mwyach mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio. Mae'r lleoliadau heb eu rheoleiddio hyn yn cynnwys rhai mannau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden, yn y cartref neu mewn lleoliadau eraill nad ydynt yn cael eu rheoleiddio yn yr un ffordd ag ysgolion neu leoliadau gofal plant, er enghraifft.
- Yn gwneud y gyfraith yn fwy clir, fel bod plant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn deall y gyfraith. Bydd hyn yn gwella gallu pobl broffesiynol sy'n gweithio gyda theuluoedd i ddiogelu plant trwy gael gwared â'r dryswch sydd yn bosib ar hyn o bryd ynglŷn â beth yw lefel dderbyniol o gosb gorfforol. Hefyd, bydd yn galluogi pobl broffesiynol i ddarparu cyngor clir a diamwys i rieni a gofalwyr fod unrhyw lefel o gosb gorfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.
- Yn helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi arwydd clir na chaiff cosbi plant yn gorfforol ei oddef yng Nghymru.

I gael rhagor o wybodaeth am roi diwedd ar gosbi corfforol yng Nghymru, ewch i: **llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol** Neu cysylltwch â: **StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru**

I gael gwybodaeth ac awgrymiadau am rianta cadarnhaol, ewch i *Magu Plant. Rhowch amser iddo:* **llyw.cymru/rhowchamseriddo**

Stopio Cosbi Corfforol
Ending Physical Punishment

# Buddiannau Rhannau Rhydd a Chymryd Risgiau mewn Chwarae a'r Buddiannau i Ddatblygiad Cyfannol Iach Plant a Phobl Ifanc

Mae Rhannau Rhydd a Chymryd Risg yn nodweddion pwysig amgylcheddau chwarae er mwyn atgyfnerthu datblygiad plant. Efallai eich bod yn tybio mai dim ond i blant oed ysgol y mae'r rhain yn berthnasol, ond yn ddiweddar bu Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn hyfforddi Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar yng Nghasnewydd, lle gwnaethom edrych ar sut y gall (ac y dylai) risg mewn chwarae gael ei ymgorffori ym mhob darpariaeth chwarae, gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar yn ogystal â Chlybiau Gofal Plant Allysgol.

**Rhannau Rhydd**
Cyn cynllunio, darparu adnoddau a pharatoi'r amgylchedd chwarae, RHAID i Weithwyr Chwarae/Ymarferwyr ymgynghori â'r HOLL blant a phobl ifanc sy'n mynychu'r Lleoliad er mwyn adnabod eu hanghenion a'u hoff ddewisiadau o ran chwarae. Gallwn hefyd adnabod eu hoffterau a'u hanhoffterau o arsylwi arnynt yn ystod chwarae a fydd wedi ei ddewis yn rhydd a'i hunangyfeirio. Nodwch hefyd ei fod yn un o hawliau sylfaenol plant i gael gwrandawiad ac ystyriaeth o'u safbwyntiau a'u barnau pan ddoir i benderfyniadau a allai effeithio arnynt.

Mae llawer o ffyrdd cynhwysol i ymgynghori â'r plant a'r bobl ifanc i wneud yn sicr bod eu holl farnau a syniadau yn cael eu clywed; yn cynnwys trafodaethau rhwng ychydig neu grŵp cyfan, rhestrau dymuniadau a bocsys awgrymiadau. Gall pleidleisio-dot for yn ddull effeithiol o adnabod safbwyntiau a diddordebau'r plant yn eich Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar; yma bydd plant yn glynu dotiau bychain ar wahanol ddarluniau i fynegi eu safbwyntiau.

Wedi i ni adnabod holl anghenion chwarae'r plant a'r bobl ifanc, byddwn yn ystyried yr adnoddau y byddwn eu hangen … yr adnoddau gorau ar gyfer amgylchedd chwarae sydd wedi ei ddewis yn rhydd ac sy'n cael ei hunangyfarwyddo yw **Rhannau Rhydd!**

Nid yw Damcaniaeth Rhannau Rhydd yn ffenomenon newydd. Y pensaer, Simon Nicholson, a feddyliodd am y ddamcaniaeth hon yn ôl yn 1971. Ei syniad ef yw bod Rhannau Rhydd yn creu mwy o gyfleoedd am greadigrwydd nag adnoddau a defnyddiau sefydlog yn yr amgylchedd …

*'Mewn unrhyw amgylchedd, mae graddfa dyfeisgarwch a chreadigrwydd, a'r posibilrwydd o ddarganfod, yn uniongyrchol gyfrannol i'r nifer a'r math o amrywiolion o'i mewn.'* Simon Nicholson, Pensaer

…sy'n golygu'n syml, po fwya'r adnoddau a'r defnyddiau sydd yn yr amgylchedd chwarae, mwya'r nifer o bethau y gall y plant a'r bobl ifanc eu creu, ac ymgysylltu a rhyngweithio â nhw - gan hybu eu datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Mae Rhannau Rhydd yn creu posibiliadau diddiwedd i ddychymyg a chreadigrwydd plant a phobl ifanc yn ystod eu chwarae.

Felly, beth yw Rhannau Rhydd? Yr ateb syml yw, unrhyw beth o gwbl! Maen nhw'n eitemau y gellir eu symud o gwmpas, eu tynnu, eu gwthio, eu taflu eu hadeiladu a'u dadadeiladu a.y.b., gallant fod yn amrywiaeth eang o adnoddau, defnyddiau, props a sborion; yn bethau y gellir eu symud, cario, cyfuno, addasu, cymysgu, ail-ddylunio, siglo, taflu, dymchwel, eu tynnu'n ddarnau a'u rhoi yn ôl at ei gilydd mewn amryw o ffyrdd.

Mae'n bosibl cael hyd i Rannau Rhydd am ddim neu'r nesaf peth i ddim - ond bydd ganddynt werth uchel iawn a defnydd anghyfyngedig mewn chwarae plant. Y mae'n rhyfeddol beth y gall y plant ei ennill o gael rhannau rhydd; dyma'r sylfaen i greadigrwydd plant, eu meddwl rhesymegol, yn eu chwilota ac wrth fodloni eu chwilfrydedd.

**Sut allwn ni gael gafael ar Rannau Rhydd**
Os edrychwn ar Rannau Rhydd mewn 3 chategori, Bach, Mawr a Naturiol, bydd hynny'n help i ni nodi dewis digon eang o adnoddau gwahanol, newydd a chyffrous. Rhai enghreifftiau …

| Rhannau Rhydd Bach | Rhannau Rhydd Mawr |
|---|---|
| Botymau<br>Poteli<br>Corciau<br>Pibau<br>Potiau Iogwrt<br>Potiau a Phadellau<br>Tiwbiau<br>Rhaff<br>Bocsys<br>Tybiau | Pibau<br>Teiars<br>Bocsys Mawr<br>Biniau Compost<br>Riliau Gwifrau<br>Trydan<br>Paledau<br>Cadeiriau<br>Byrddau<br>Cynfasau Gwely<br>Berfa / Wilber |
| **Rhannau Rhydd Naturiol** | **Ble gellir Cael Gafael ar Rannau Rhydd** |
| Conau Pîn<br>Cregyn<br>Dail<br>Cerrig<br>Ffyn<br>Blodau<br>Siapau pasta<br>Hadau<br>Pren<br>Corc | Storfeydd Sgrap<br>Busnesau Lleol<br>Siopau<br>Rhieni<br>Siopau Elusen<br>Cymdogion<br>Coedwigoedd<br>Y Traeth<br>Canolfannau<br>Ail-gylchu<br>Sgipiau sbwriel |

… Heb anghofio'r holl eitemau tŷ a thrydanol y mae pobl yn eu taflu: hen gyfrifiaduron, bysellfyrddau, hwfers, fonau, tostwyr, tegellau, sbectolau, deunydd coginio, dillad a.y.b. (diwerth i rai ond gwerthfawr i Weithwyr Chwarae!). Bydd y plant yn actio senarios - byddant yn arbrofi â'u hunaniaeth ac maen nhw wrth eu boddau'n tynnu pethau'n ddarnau, gweld sut maen nhw'n gweithio a'u rhoi yn ôl at ei gilydd eto.

Sawl gwaith y mae'r plant wedi torri adnoddau drud yn eich Lleoliad wrth chwarae â nhw? Er bod gan deganau eu lle a'u gwerth yn chwarae'r plant, gall eu defnydd fod yn gyfyngedig; maent hefyd yn gostus fel arfer ni cheir un arall yn eu lle wedi iddynt dorri. Er enghraifft, defnydd cyfyngedig sydd gan gar chwarae o ran eu dychymyg a'u creadigrwydd - ac os yw plentyn yn torri'r olwynion ar y car, yna caiff ei daflu mwy na thebyg; ond pan fyddant yn codi bocs cardfwrdd ac yn dechrau chwarae, gall y bocs ddod yn unrhyw beth y mae plentyn am iddo fod: car, cwch, llong ofod, tŷ doliau, llwyfan, awyren, het, den ….. mae'r posibiliadau'n ddi-ri! Mae Rhannau Rhydd yn bwydo'u dychymyg, a'r hyn sy'n wych am Rannau Rhydd yw nad oes unrhyw wahaniaeth os cânt eu torri, gellir eu hamnewid yn hawdd - a bydd digonedd bob tro i bawb; gan leihau dadlau a hyrwyddo rhannu. Pan fyddwn yn darparu amrywiaeth eang o Rannau Rhydd rydym yn creu amgylchedd sy'n gynhwysol ac yn cynnwys gwahanol bethau, lle bydd y plant yn teimlo'n rhydd i ymgysylltu â'r adnoddau a'u harchwilio, sy'n eu galluogi i ddefnyddio eu dychymyg a'u creadigrwydd a datblygu eu galluoedd greddfol, eu galluoedd i ddatrys problemau, eu meddwl rhesymegol a'u sgiliau bywyd cyfannol.

Mae Rhannau Rhydd yn hawdd i'w storio, hyd yn oed mewn gwagle cyfyngedig - gallech ddefnyddio cynhwyswyr megis basgedi mawr, bwcedi tywod, sied neu hyd yn oed y cwpwrdd brwshys! Ac mae'n hawdd eu clirio - does dim angen iddyn nhw fod wedi eu sortio - taflwch nhw i gyd yn eich cynhwysydd :)

Gwelwch yma'r ddolen at grynodeb o Ddamcaniaeth Rhannau Rhydd Simon Nicholson. Mae'r tudalen yma hefyd yn cynnwys fideo byr ardderchog gan y Scrapstore Playpod ym Mryste – sy'n enghraifft berffaith o Rannau Rhydd r waith, ac a fydd yn rhoi dealltwriaeth glir i chi o werth Rhannau Rhydd yn chwarae'r play: https://creativestarlearning.co.uk/early-years-outdoors/simon-nicholson-and-the-theory-of-loose-parts-1-million-thanks/





# Risg mewn Chwarae

Bydd risg ynglŷn â phopeth y byddwn yn ei wneud mewn bywyd …. gyrru car, cerdded lawr y staer, croesi'r ffordd, gwneud paned o de; ond rydym yn cydnabod beth yw'r risgiau, ac rydym wedi dysgu i gymryd camau arbennig i leihau neu ddiddymu'r risgiau; e.e. gwisgo gwregys sedd wrth gamu i'r car a gyrru o fewn y cyfyngiad cyflymder. Fe wnaethom ddysgu yn ystod ein plentyndod a thrwy chwarae sut orau i wneud pethau a sut i gadw ein hunain yn ddiogel! Felly mae'n hanfodol bod plant yn profi ac yn dysgu i asesu eu risg eu hunain, fel y gwnaethom ni, drwy geisio a methu, a phrofiadau uniongyrchol, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn adeiladu ar y sgiliau a'r hyder i'w cadw'u hunain yn ddiogel wrth dyfu'n oedolion.

Rôl y Gweithiwr Chwarae yw cefnogi plant pan fyddant yn chwarae. Mae gennym agwedd gadarnhaol tuag at risg ac rydym yn cydnabod y buddiannau niferus o ran datblygiad i blant y mae eu chwarae'n cynnwys risg; rydym yn defnyddio dull risg v budd, lle byddwn yn pwyso a mesur buddiannau datblygiadol cyfle chwarae yn erbyn y risgiau sydd ynghlwm, ac yn ymarfer ein doethineb ar y ffordd orau o ymyrryd.

Meddyliwch am blant yn rheoli risg a Gweithwyr Chwarae'n eu cefnogi yn y ffordd yma … Mae camau cyntaf baban yn gyforiog o risg, byddant yn profi risgiau emosiynol a chorfforol; byddan nhw'n ansicr ar eu traed, yn cwympo, yn dod at eu hunain, yn codi'n ôl ac yn dal i drio nes eu bod wedi meistroli'r gallu i gerdded. Byddwn ni fel rhieni ac oedolion yn eu cefnogi drwy'r trawsnewid yma drwy wneud yn siŵr fod yr ardal yn ddiogel, drwy ddal eu dwylo nes y byddant yn teimlo'n ddigon diogel i'ch gadael i fynd a'u hannog nhw i ddal i drio.

Bydd Gweithwyr Chwarae'n defnyddio'r un egwyddor hon wrth hwyluso risg mewn chwarae. Ystyriwch chwarae er enghraifft: mae plant yn dringo o ran chwilfrydedd; maen nhw am wybod sut mae'r byd yn edrych o wahanol uchderau ac onglau. Mae dringo'n ofn cyffredin ymysg Gweithwyr Chwarae, ac maen nhw'n dueddol o rwystro plant rhag dringo, hyd yn oed ychydig fodfeddi o'r llawr - 'rhag ofn iddyn nhw syrthio'. Wrth wneud hyn, rydym nid yn unig yn gwarafun y cyfle iddyn nhw asesu risg, ond hefyd yn gwarafun y cyfle iddyn nhw brofi sawl budd datblygiadol, megis dysgu i gydbwyso, meithrin sgiliau corfforol a chyhyrau, cydlyniad llaw-llygad, hunanhyder, gwydnwch a.y.b.

Enghraifft ….os byddai plentyn yn dringo ar faint, byddem yn arsylwi arno a'i amgylchedd agos, gan wneud yn siŵr fod yr ardal yn ddiogel. Os yw'n hyderus ac yn sicr ohono'i hun yna byddem ddim ond yn cadw golwg arno wrth iddo asesu'i risgiau chwarae ei hun. Os bydd arno angen help, yna byddem yn ei helpu. Ond os byddem yn teimlo bod y plentyn mewn perygl o syrthio oddi ar y faint a niweidio'i hun, yna byddem yn ei helpu i lawr ac yn esbonio pam yr oedd hyn yn beryglus, ac yn ei annog i ddringo ar fainc lai i adeiladu ei hyder.

Wrth chwarae, bydd plant yn naturiol yn gwthio'r ffiniau, yn rhoi cynnig ar bethau newydd ac yn cymryd risgiau. Mae ymgysylltu â risg mewn chwarae yn hanfodol i ddatblygiad y plant a'r bobl ifanc. Mae angen iddynt fod ynglŷn â phrofiadau uniongyrchol er mwyn dysgu i asesu'r risg ynglŷn â sefyllfaoedd arbennig drostynt eu hunain. Os nad yw plant yn dysgu i asesu risg drostynt eu hunain pan fyddant yn ifanc ni fyddant yn meithrin y sgiliau a'r hyder sy'n angenrheidiol i roi cynnig ar bethau newydd a dysgu am eu cyfyngiadau eu hunain - a gallai hyn achosi pob math o broblemau iddynt.

Gall hwyluso risg mewn chwarae ymddangos beri ofn ar y dechrau, yn enwedig gyda phlant iau, ac yn enwedig os oes gennych chi eich ofnau eich hunan ynghylch risg. Ond rhaid i ni adael i blant ddatblygu eu sgiliau asesu risg yn gynnar mewn oes. Fel arall rydym yn paratoi'r ffordd iddynt fethu mewn maes datblygiad hollbwysig. Byddwch eisoes yn asesu'r ardaloedd chwarae i wneud yn sicr eu bod yn ddiogel, ond wrth ddefnyddio'r dull risg v budd mewn amgylchedd diogel rydym yn gadael i'r plant ymgysylltu â risg ar lefel sy'n dderbyniol ac sydd o les i'w datblygiad. Wrth gymryd cam yn ôl ac arsylwi ar y plant, a pheidio â neidio'n syth i mewn a chymryd ymaith eu profiadau uniongyrchol o brofi risg, byddwch yn rhoi iddynt yr hyder, y gwydnwch a'r sgiliau i gamu'n ddiogel allan i'r byd mawr.



# Gweithgareddau

**Ni ddylai chwarae gostio'n ddrud; hyrwyddwch chwarae cynaliadwy a rhowch gynnig ar y gweithgareddau 'newydd o hen' hyn gan ddefnyddio defnyddiau wedi'u hailgylchu.**

## Troellwyr poteli

**Bydd angen arnoch:**
· poteli dŵr gwag
· peniau marcio
· sisyrnau

**What you need to do:**
1. Lliwiwch eich poteli dŵr yn llawn â'r peniau marcio.
2. Torrwch waelod y botel ymaith, ac yna torrwch weddill y botel yn droell, gan adael ysgwyddau a gwddw'r botel fel ag y maent.
3. Llithrwch wddw'r botel dros gangen coeden, a gwyliwch nhw'n bownsio ac yn dawnsio yn y gwynt!





## Bowlio poteli plastig

**Bydd angen arnoch:**
· 10 potel blastig wag o'r un maint â chaeadau.
· Paentiau poster/acrylig
· Pêl
· Tywod/reis
· Dŵr a jwg

**What you need to do:**
1. Llenwch bob potel â swm bychan o dywod/reis, dim ond digon i orchuddio gwaelod y botel.
2. Gwasgwch tua 3 llwy fwrdd o baent i mewn i bob potel unigol; gallwch eu gwneud mor lliwgar ag y dymunwch. Gallwch ychwanegu llewych i wneud iddyn nhw befrio.
3. Llenwch y poteli at eu hymylon gyda'r dŵr a sicrhewch y caeadau mor dynn â phosibl.
4. Rhowch ysgytwad i gymysgu'r paentiau.
5. Gosodwch nhw mewn llinell ac rydych chi'n barod i fowlio. I blant hŷn gallech roi rhifau ar y poteli a chael gêm adio a thynnu llawn hwyl.

## Daliwr carton llaeth

**Bydd angen arnoch:**
· Carton llaeth glân, gwag
· Siswrn
· Tâp
· Llinyn
· Pompom / pêl â thyllau y gellir ei glymu ei glymu wrth rywbeth.

**Beth i'w wneud:**
1. Torrwch y botel yn ei hanner a chadwch yn pen â'r ddolen.
2. Gorchuddiwch y pennau â thâp i amddiffyn bysedd rhag ymylon miniog.
3. Torrwch hyd o linyn. Po hira'r llinyn, y mwyaf heriol a fydd y gêm.
4. Clymwch y llinyn o gwmpas caead y botel a'i sicrhau yn dda â thâp.
5. Clymwch ben arall y llinyn at y pompom / y bêl a gwnewch yn ddiogel.
6. Gallwch addurno'r carton fel y mynnwch, gan ddefnyddio sticeri, marcwyr a.y.b.
7. Rydych yn awr yn barod i chwarae. Daliwch y ddolen, taflwch y bêl i'r aer a cheisiwch ei ddal yn y carton.

## Lansiwr tegan

**Bydd angen arnoch:**
· Bocs cardfwrdd
· Tâp
· Bandiau lastig
· Penseli/peniau

**Beth i'w wneud:**
1. Adeiladu'r darn lansio:
a) Torrwch allan siâp hirsgwar o focs cardfwrdd, plygwch ef yn ei hanner a gwnewch ddau dwll ym mhob pen.
b) Lapiwch dâp o gwmpas eich bocs. (Bydd hyn yn gwneud y cardfwrdd yn gadarnach.)
c)Torrwch 2 dwll drwy led y bocs, gyferbyn â'i gilydd; gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael rhywfaint o le i'ch lansiwr gael ei dynnu yn ôl.
ch)Cymerwch fand lastig a'i dorri. Rhowch linyn drwy'r tyllau yn y lled a slotiwch un pen o'r darn bychan o'r cerdyn wedi'i blygu.
d)Torrwch ddau dwll yng nghefn y bocs.
dd)Torrwch fand lastig arall a'i bostio drwy gefn y bocs a phen arall y cerdyn bychan sydd wedi'i blygu. Clymwch bob pen yn gadarn.
*Gwelwch y llun i'w osod yn ei le.

2. Rhowch eich lansiwr teganau ar waith:
I weithredu'r lansiwr, rhowch eich tegan ar yr "x", tynnwch y band lastig yn ôl ac yna gadewch iddo fynd! Bydd eich tegan yn hedfan allan a (gobeithio) drwy'r agoriad.

